# Strategaeth a Gweledigaeth Bangor

## Adroddiad Terfynol ar gyfer Cyngor Dinas Bangor Rhagfyr 2016



Cynlas Cyf
MEWN CYDWEITHREDIAD Â JEFF STPAUL CONSULTING & JAMES GOODMAN

## Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol....1
2. Trosolwg o'r Strategaeth....5
3. Bangor....7
4. Y Cyd-destun Strategol....14
5. Partneriaid a Rhanddeiliaid....18
6. Modelau Cynaliadwy ar gyfer Darpariaeth y Dyfodol....26
7. Themâu a Chynllun Gweithredu....31
8. Casgliadau....63

Tabl 1 - Dadansoddiad o Boblogaeth 16-74 yn ôl Gweithgarwch Economaidd a Dosbarth Cymdeithasol ....7
Tabl 2 - Dadansoddiad o WIMD Bangor LSOA 2014 ....8
Tabl 3 - Y 10 Ffactor Uchaf sy'n gwneud Dinas Wych....16
Tabl 4 - 10 Ffactor sy'n wneud Dinas Wych - RAG....17
Tabl 5 - Dadansoddiad o'r Busnesau yng Nghanol y Ddinas ....34

Ffigwr 1 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ....14

| | |
|---|---|
| Atodiad I | Cynllun Gweithredu |
| Atodiad II | Data Cyfrifiad 2011 |
| Atodiad III | Cylch Gorchwyl - Partneriaethau a Grwpiau Thema |

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 **Cyflwyniad.**

Fel dinas a chanolfan is-ranbarthol yng ngogledd Cymru, mae gan Fangor gymeriad unigryw ac mae gan y sawl sy'n byw ynddi, sy'n astudio ynddi ac sy'n gweithio ynddi falchder dwys yn eu dinas. Mae iddi nifer fawr o rinweddau, yn gyfoes ac yn hen, ac mae'n wynebu heriau sylweddol o ran ei ffyniant a'i bywiogrwydd.

Mae'r Strategaeth a'r Weledigaeth wedi'u priodoli i wneud y mwyaf o brif rôl Bangor fel canolfan is-ranbarthol Gwynedd ac Ynys Môn, gan gydnabod ei chryfderau cynhenid a'i photensial cuddiedig a chael gwared â'r elfennau negyddol sydd wedi cau am y Ddinas ers degawd a mwy.

Pe cyflawnir y gwaith hwn yn iawn, gall Bangor ddatblygu i fod yn un o Ddinasoedd Gorau Cymru; yn cynnig yr amrediad llawn o rinweddau a chyfleusterau sy'n perthyn i Ddinas Dda; ond â chyfoeth o dreftadaeth Gymraeg a Cheltaidd yn treiddio drwyddi.

## 1.2 **Themâu a Chynllun Gweithredu.**

Mae tair thema yn y Strategaeth sy'n dibynnu ar ei gilydd, ni all yr un ohonynt gyflawni ei deilliannau i gyd ar ei phen ei hun. Mae'n agwedd holistaidd, ar lefel strategol ac ar lefel thematig.

Mae cam gweithredu dechreuol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi'r Strategaeth a'r Weledigaeth. Dylid ei ystyried fel 'templed' dechreuol i'r Bartneriaeth a'r Grwpiau Thematig ei ystyried, ei ddiwygio a'i ddatblygu ymhellach. Mae cyllideb net o **£9.710m** wedi'i adnabod, ac wedi'i baratoi fel cynnig 'yn barod am fuddsoddiad' i gefnogi ceisiadau am arian i Lywodraeth Cymru, y Loteri a sefydliadau eraill.

Y Tair Thema:

### 1.2.1 Datblygu a'r Amgylchedd

Ar sail pedair is-thema:

- Datblygiad
- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Tir y Cyhoedd

- Trafnidiaeth a Mynediad i Gerddwyr

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar roi sylw i ffabrig gwael yr adeiladau sydd yn yr ardal fanwerthu a gwaith ar y Cylch Cyhoeddus. Mwy o fuddsoddi i ddatblygu'r Pier, datblygu mwy ar yr Ardal Ddiwylliannol, ailddatblygu Campws y Brifysgol ar Ffordd Deiniol a'i drawsffurfio'n Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd hyn yn cael ei gefnodi gan nifer o gynlluniau i wella edrychiad cyffredinol y ddinas, darparu mannau gwyrdd i ddinasyddion a rhesymoli trafnidiaeth a mynediad i gerddwyr.

### 1.2.2 Economi a Hyrwyddo

Ar sail tair is-thema:

- Cefnogi Busnes
- Marchnata a Hyrwyddo
- Digwyddiadau

Bydd y prosiectau'n cynnwys gwrthdroi dirwyiad y sector gweithwyr proffesiynol ac adfywio'r ddinas wrth ailddefnyddio'r gwagle uwchben siopau, grantiau a gwasanaethau cefnogol ymgynghorol i fanwerthwyr a busnesau Bangor, ailfrandio ac ad-drefnu'r Ddinas, a chynlluniau i annog buddsoddi gan y sector preifat.

### 1.2.3 Tai, Iechyd a Llesiant

Ar sail dwy is-thema:

- Cartrefi
- Iechyd a Llesiant

Bydd y thema hon yn canolbwyntio'n sylweddol ar adfywio a thyfu'r stoc tai yn y Ddinas, ymdrin â'r materion negyddol sy'n gysylltiedig â Thai Amlfeddiannaeth, a gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Sector Preifat i ddwyn Eiddo'n ôl i safon y byddai pobl ifanc yn benodol yn dymuno byw ynddynt. Bydd cynlluniau priodol i gyd-fynd â hwy i gefnogi amodau byw mwy cynaliadwy ac iachach, a mynediad i wasanaethau a chefnogaeth iechyd a llesiant.

### 1.2.4 Swyddfa Rhaglen

Bydd hyn yn darparu tîm prosiect lleol a allai weithio gyda phob rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni lleol.

1.3 Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar ddau symbyliad craidd

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- 10 Ffactor sy'n gwneud Dinas Wych.

  Mae'r ffactorau hyn wedi cael eu llunio drwy groes-gyfeirio nifer o ddogfennau ac adroddiadau sydd wedi adnabod ffactorau sy'n gwneud dinas yn ddeniadol ac yn ffyniannus. Dyma'r deg ffactor:

  - Mannau gwyrdd, agored i'w rhannu
  - Diwylliant
  - Cysylltedd
  - Pensaernïaeth Hanesyddol ac amgylchedd adeiledig diddorol ac atyniadol
  - Bwyd Da
  - Perchnogaeth a Chyfleoedd i bawb
  - Perchnogaeth Gyhoeddus Breifat, Gweledigaeth a Rennir a Llywodraethu Da
  - Cyfalaf Cymdeithasol
  - Amgylchedd byw deniadol
  - Hunaniaeth Nodedig

1.4 **Partneriaid.**

Dyma'r Partneriaid Allweddol a fydd yn gwireddu'r Strategaeth a'r Weledigaeth:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Bangor
- Pontio
- Cyngor Dinas Bangor
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Partneriaeth Tai Strategol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Y Sector Preifat (BID)
- Partneriaeth Tai Strategol

## 1.5 Heriau Gweithredol a Strategol Allweddol

Mae’r strategaeth yn gynhwysfawr ei natur, yn thematig ac yn ddaerayddol. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol y bydd yn rhaid i'r Bartneriaeth eu hystyried a chanolbwyntio arnynt er mwyn cyrraedd ei nodau. Yn fwyaf arbennig:

- Cadw'r Momentwm a'r Brwdfrydedd i fynd
- Sicrhau Cefnogaeth yr holl Bartneriaid, ar lefel Strategol a Chyflawni
- Diffinio sefyllfa a pherthynas y bartneriaeth gyda fforymau a phartneriaid eraill.
- Diffinio ac adnabod arian cyfatebol yn gliriach ar gyfer y Cynllun Gweithredu
- Dod â Dinasyddion Bangor gyda ni

## 1.6 Crynodeb

Bydd y Strategaeth a'r Weledigaeth yn esblygu ac yn datblygu dros amser. Mae Cynllun Gweithredu tair-blynedd cychwynnol wedi'i ffurfio, ond dylid ei ystyried fel 'sbardun' ar gyfer gweledigaeth fwy cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer Bangor; gweledigaeth a fydd, dros y ddegawd nesaf, yn trawsffurfio ffawd y Ddinas, ac yn ei sefydlu fel un o ardaloedd mwyaf deniadol Cymru i fyw, gweithio, buddsoddi, dysgu ac ymweld.

## 2. Trosolwg o'r Strategaeth

### 2.1. **Cefndir.**

Yn dilyn dadansoddiad budd-ddeiliaid a gynhaliwyd yn 2015, ar ran y Bartneriaeth Canol Dinas, comisiynodd Cyngor Dinas Bangor gwmni Cynlas Cyf i ymgymryd â thair tasg benodol, sef:

Ymgorffori a datblygu strwythurau rheoli cadarn ar gyfer y Bartneriaeth Canol Dinas. Datblygu Strategaeth a Gweledigaeth trosfwaol ar gyfer Canol y Ddinas, i gynnwys pedwar thema penodol o waith, sef:

- Datblygu a'r Amgylchedd
- Busnes ac Economi
- Tai ac Iechyd
- Marchnata a Hyrwyddo

Yn olaf, ar sail casgliadau'r ddwy dasg eraill, datblygu a chefnogi gweithrediad Cynllun Gweithredu ar ran y Bartneriaeth Canol Dinas.

### 2.2. **Methodoleg**

Defnyddiwyd nifer o ddulliau allweddol i ddatblygu'r strategaeth:

- Ymchwil Desg ac Adolygu’r Ddogfen
- Ymgysylltiad Rhanddeiliaid
- Deialog un i un
- Gweithdai
- Partneriaeth ac Is-grwpiau
- Gwaith Maes ac Ymweliadau Safle

**Adolygiad Desg**

- Roedd Adolygiad o'r Ddogfen yn cynnwys:
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013 - 2020
- Fframwaith Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2013 - Llywodraeth Cymru
- Cynllun Busnes Pier Bangor
- Cynllun Strategol Prifysgol Bangor 2015-2020

- Strategaeth Ystadau Prifysgol Bangor
- Strategaeth Datblygu Rhaglen y Celfyddydau, Pontio
- Cynllun Busnes 5 Achos, Pontio
- Strategaeth Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**Ymgysylltiad Rhanddeiliaid**
Ymgynghorwyd â nifer o amryw bobl drwy ddefnyddio tri dull cydgysylltiedig:

- Ymgynghoriad un i un
- Gweithdai, yn fwyaf nodedig gyda Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor
- Drwy'r bartneriaeth a fforymau eraill, megis y gweithgor ar y cyd rhwng y sefydliadau diwylliannol allweddol, i ddatblygu'r rhan ddiwylliannol.

Defnyddiwyd y gweithdai i sicrhau y ceir trosolwg holistaidd o'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn a'r Ddinas, ac hefyd i adnabod pa fewnbynnau ac adnoddau y gellir eu defnyddio i wella a gyrru'r rhaglen ymlaen.

Roedd Gwaith Maes ac Ymweliadau Safle yn golygu defnyddio astudiaethau blaenorol fel sylfaen, ac yna cynnal dadansoddiad Dyluniad Trefol o graidd y Ddinas ac ardaloedd cyfagos. Defnyddiwyd hwn yn bennaf i ddeall sut yr oedd yr amryw ardaloedd yn ymddwyn ac yn perthnasu i'w gilydd. Arweiniodd hyn hefyd at adnabod safleoedd a allai fod yn hanfodol ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol mewn amryw sectorau, gan felly effeithio ar ddatblygiad a ffyniant y ddinas yn y dyfodol.

2.3. Lluniwyd yr adroddiad terfynol hwn i fod yn 'barod am fuddsoddiad', ac mae'n cynnwys costau dangosol a'r ffynonellau tebygol o arian a allai fod yn briodol ac ar gael. Yna, manylir ar hyn yn y Cynlluniau Gweithredu sydd wedi cael eu datblygu i gefnogi'r strategaeth.

# 3. Bangor

## 3.1. Trosolwg

Bangor yw Dinas hynaf Cymru, gyda phoblogaeth gyfredol o 16,658 yng nghyfrifiad 2011. Mae'n un o chwe lle yn unig sydd wedi derbyn statws Dinas yng Nghymru, er mai dim ond y 25ain ardal drefol fwyaf ydyw yn ôl poblogaeth.

Mae ffigwr y boblogaeth yn cynnwys 7,180 o fyfyrwyr. Yn ystod y tymor, amcangyfrifir bod cyfanswm o 10,766 o fyfyrwyr (ar sail ffigwr 2014/15 y Brifysgol). Felly, yr amcangyfrif gorau o boblogaeth Bangor yn ystod y tymor yw 20,244. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn dangos pa mor arwyddocaol flaenllaw yw'r boblogaeth myfyrwyr fel dosbarth cymdeithasol yn y Ddinas, a phwysigrwydd y Brifysgol yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Gellir gweld Proffil o Ddata Cyfrifiad mwy manwl yn Atodiad II.

Un o brif effeithiau presenoldeb y Brifysgol yw nifer y stoc tai myfyrwyr. O'r 1300 Tŷ Amlfeddiannaeth 'cofrestredig' yng Ngwynedd, mae 1160 ohonynt ym Mangor (88%). Mae hyn hefyd yn cynrychioli tua 21% o gyfanswm y stoc dai yn y Ddinas (ar sail Cyfrifiad 2011).

Mae'r boblogaeth 16+ yn sylweddol wahanol i ffigwr Gwynedd a Chymru Gyfan; fel y gwelir yn y Tabl isod.

*Tabl 1 - Dadansoddiad o Boblogaeth 16-74 yn ôl Gweithgarwch Economaidd a Dosbarth Cymdeithasol1*

| | Bangor Total | % | Gwynedd | % | Wales | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Population** | 16358 | | 121874 | | 3063456 | |
| | | | | | | |
| Population 16-74 | 13308 | 79.85 | 88913 | 73 | 2245166 | 73.3 |
| Economically Active | 6586 | 52.725 | 57995 | 65.2 | 1476735 | 65.8 |
| Employed | 5568 | 45.5625 | 53961 | 60.7 | 1363615 | 60.7 |
| Unemployed | 443 | 6.6125 | 3176 | 5.5 | 96689 | 6.5 |
| Economically Inactive | 6722 | 47.275 | 30918 | 34.8 | 768431 | 34.2 |
| Long term sickness/disabled | 478 | 9.625 | 3867 | 12.5 | 140760 | 18.3 |
| | | | | | | |
| **Social Class** | | | | | | |
| Mangerial and Professional | 1947 | 17.2375 | 23720 | 26.7 | 614294 | 27.4 |
| Skilled | 1925 | 16.875 | 27029 | 30.4 | 659631 | 29.4 |
| Part/unskilled | 2256 | 19.175 | 23031 | 25.9 | 646089 | 28.8 |
| Students and other | 7180 | 46.7375 | 15133 | 17 | 325152 | 14.5 |
| No qualifications (Age 16+) | 2522 | 21.15 | 23365 | 23.2 | 650517 | 25.9 |

*Ffynhonnell - Cyfrifiad 2011*

Unwaith eto, mae'r tabl hwn yn dangos pa mor flaenllaw yw'r boblogaeth myfyrwyr ym Mangor, a'i effaith ar ystadegau allweddol eraill, megis bod yn economaid anweithredol Mae'r ffigwr economaidd anweithredol yn llawer uwch na ffigwr y Sir a Chymru, ond bydd nifer o fyfyrwyr wedi'u cynnwys o fewn y cyfanswm hwn.

O safbwynt ei ffyniant, mae Bangor yn ddinas â gwahaniaethau mawr. Mae rhai ardaloedd o ffyniant sylweddol, lle mae gan ardaloedd eraill amddifadedd amlwg. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen (LSOAs) Marchog 2 a Marchog 1 yw'r ail a'r trydydd ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngwynedd o ran mynegai cyffredinol, ac maent ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, mae Menai (Bangor) ymysg y lleiaf difreintiedig, ar sail Sirol a thrwy Gymru.

Yn wir, yn ôl data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) diweddar o 2014, o ran 'Incwm', Menai yw'r ail LSOA lleiaf difreintiedig yng Nghymru (1908 o 1909). Yn yr un modd, o ran Cyflogaeth, mae hefyd yn arddangos gwydnwch economaidd, gan ei fod y pedwerydd LSOA lleiaf difreintiedig yng Nghymru (1906 o 1909).

Mae'r Tabl isod yn arddangos Safle Bangor mewn rhagor o fanylder (ac mae hefyd yn arddangos Wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig Gwynedd fel meincnodau).

*Tabl 3 - Dadansoddiad o WIMD Bangor LSOA 2014[3]*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **100** | **10%** | W01000098 Peblig (Caernarfon) | Arfon |
| **104** | | W01000091 Marchog 2 | Arfon |
| **162** | | W01000090 Marchog 1 | Arfon |
| **884** | | W01000075 Hendre (Gwynedd) | Arfon |
| **999** | | W01000077 Hirael a Garth 2 | Arfon |
| **1006** | | W01000062 Deiniol | Arfon |
| **1088** | | W01000064 Dewi | Arfon |
| **1448** | | W01000076 Hirael a Garth 1 | Arfon |
| **1453** | | W01000072 Glyder | Arfon |
| **1695** | | W01000092 Menai (Bangor) | Arfon |

*Ffynhonnell - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014*

Fel dinas a chanolfan is-ranbarthol yng ngogledd Cymru, mae gan Fangor gymeriad unigryw, ac mae iddi lawer o hanes, diwylliant a threftadaeth cymdeithasol ac economaidd. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 - 2026) yn nodi:

*"Mae gan y Ddinas swyddogaeth is-ranbarthol, a swyddogaeth ar gyfer ardal y Cynllun a swyddogaeth mwy lleol. Mae'n chwarae rhan drawsffiniol a lleol o ran cyfleoedd cyflogaeth, addysg, iechyd a hamdden. Mae'n ganolfan fanwerthu, nid yn unig ar gyfer ei phoblogaeth ei hun ond ar gyfer ardal ehangach hefyd."*

Wrth nodi'r uchod, gellir dadlau bod y Ddinas wedi cael ei hesgeuluso rywfaint dros y blynyddoedd diweddar, ac nid yw wedi mwynhau'r buddsoddiad sylw y mae trefi a dinasoedd eraill wedi'i dderbyn ar draws Cymru. Wedi dweud hynny, mae wedi mwynhau proffil sylweddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae ganddi lawer i ymfalchïo ynddi.

O safbwynt treftadaeth, mae yno Gadeirlan amlwg sydd ag arwyddocâd hanesyddol iddi, Pier ysblennydd, ynghyd â naws am le cymdeithasol a diwylliannol.

Mae datblygiadau newydd wedi rhoi i Fangor symbyliad newydd; y mwyaf amlwg yw Pontio, yr amgueddfa a'r oriel gelf newydd, Storiel, a'r Ganolfan Iaith Gymraeg sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar, sy'n cael ei rhedeg gan Fenter Iaith Bangor. Mae'r datblygiadau hyn wedi atgyfnerthu a chefnogi ymddangosiad y rhan ddiwylliannol rhwng Prif Adeilad y Celfyddydau'r Brifysgol draw i'r Gadeirlan.

Mae gwaith i ddod â'r Pier yn ôl i edrychiad a safon y cyfnod Fictoraidd hwyr ar y gweill, sy'n cyd-fynd â dull mwy pendant i adfywio a symbylu amgylchedd adeiledig Canol y Ddinas.

Yn academaidd, yn economaidd ac yn gymdeithasol, mae'r Brifysgol a Grŵp Llandrillo Menai (y coleg addysg bellach) yn chwarae rhan bwysig yn y Ddinas. Mae ailddatblygiad campws y Brifysgol ar Ffordd Deiniol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gyda buddsoddiad o £50m ar y lleiaf, yn cadarnhau ymrwymiad y Brifysgol ymhellach i Ganol y Ddinas, ac yn cynnig posibiliadau newydd i adfywio Bangor yn ei gyfanrwydd.

Yn ogystal, mae'r sector busnes wedi dod at ei gilydd yn ddiweddar o dan nawdd Ardal Gwella Busnes. Mae hyn yn rhoi sylw ychwanegol ac yn rhoi llais clir a strategol i'r Sector Preifat gyda datblygiad Dinas Bangor yn y dyfodol.

## 3.2. Cryfderau a Chyfleoedd y Ddinas

Mae gan Fangor nifer o gryferau a phriodoleddau.

**Hanes a Diwylliant**

Mae datblygu 'Ardal Ddiwylliannol' yn dibynnu'n sylweddol ar dreftadaeth hanesyddol y Ddinas, o sefydlu'r Gadeirlan i ddatblygu'r Brifysgol, i ddyfodiad diwylliant y Dadeni a balchder yn yr iaith Gymraeg yn deillio o'r colegau yn y 60au hyd at yr 80au.

**Yr Amgylchedd Adeiledig**
Mae ganddi hefyd gasgliad cyfoethog o adeiladau hanesyddol ac, yn gyffredinol, eiddo diddorol a gweledol ddymunol ar draws y Sir, sy'n cael ei gyfleu gan y ddau adeilad sy'n goruchafu, sef y Gadeirlan, a Phrif Adeilad y Celfyddydau yn y Brifysgol.

**Y Brifysgol a Pontio**

Mae Prifysgol Bangor yn Fudd-ddeiliad Strategol Hanfodol wrth ddatblygu Strategaeth Dinas Bangor, ac fel aelod o bartneriaeth Canol Dinas Bangor,  Yn ogystal â Phontio, mae nifer o gyfleusterau a lleoliadau hanfodol eraill sy'n wynebu'r cyhoedd, yn cynnwys Canolfan Brailsford a Chyfleuster Chwaraeon/Gerddi Botaneg Treborth, y Ganolfan Rheolaeth, Academi, Bar Uno, Teras a llyfrgell y Brifysgol.

Mae nifer o ddatblygiadau mawr yn cael eu cynnal dros y blynyddoedd nesaf, a bydd gan rai effaith uniongyrchol iawn ar y ddinas. Un enghraifft o hyn yw ailddatblygiad y safle gwyddoniaeth ar Ffordd Deiniol. Ymhellach i ffwrdd, mae parc gwyddoniaeth newydd yn cael ei gynllunio yn Gaerwen, a'r gwaith adeiladu yn dechrau yn 2017.

**Twristiaeth**

Heb os nac oni bai, mae gan Fangor gryn bellter i gael ei gydnabod unwaith eto fel cyrchfan allweddol i dwristiaid, o gymharu â'i gymydog agosaf, Caernarfon, a Llandudno ymhellach draw. Fodd bynnag, mae ganddi ei chynnig nodedig ei hun, ac mae'r buddsoddiad cynyddol mewn cyfleusterau, mwynderau a ffabrig y ddinas wedi newid y cynnig mewn modd gynnil, ond gynyddol amlwg. Mae hyn yn cynnwys y 'llinell amser', Pontio, Storiel, datblygiad yr Ardal Ddiwylliannol, cynigion ar gyfer y Pier a chynlluniau gan y Gadeirlan i ddatblygu ei ystâd yn ac o gwmpas Canol y Ddinas. Mae cynigion yn cael eu datblygu hefyd ar gyfer porth gwybodaeth a fydd

yn cydlynu ac yn hyrwyddo digwyddiadau lleol bywiog y Ddinas, a fydd yn ategu digwyddiadau rhanbarthol mwy arwyddocaol.

Mae'r cydgyfeiriad cynyddol rhwng arloesedd, technoleg a thwristiaeth yn amlwg iawn yng Ngogledd Cymru, sydd erbyn hyn yn cynnig profiadau antur o safon byd-eang gan fanteisio ar yr amgylchedd naturiol ac etifeddiaeth ei orffennol diwydiannol diweddar, a defnyddio technoleg o'r radd flaenaf, e.e. Surf Snowdonia, Bounce Below, Zip World. Mae hefyd cryn botensial o ddatblygu Bangor fel canolfan ragoriaeth academaidd ar gyfer y sector hwn o'r farchnad dwristiaeth, sy'n tyfu'n barhaus.

**Ardal Gwella Busnes**

Sefydlwyd Ardal Gwella Busnes (BID) ar gyfer y Ddinas ym mis Ebrill 2016, ac erbyn hyn mae'n un o 190 ar draws y DU. Mae'r cynnig cychwynnol yn cynnwys ardal y Stryd Fawr a Chanol y Ddinas, sy'n cynnwys oddeutu 350 uned busnes trethadwy.

Mae'r BID yn cynnig mecanwaith cynaliadwy annibynnol sy'n cael ei arwain gan fusnes, a allai gyfrannu'n fawr at adfywio'r Ddinas. Ar hyn o bryd, mae wrthi'n dod o hyd i'w ffocws a'i uchelgeisiau hirdymor, ond am y pum mlynedd nesaf o leiaf, mae arian wedi'i ddiogelu. Mae hyn wedi galluogi i Reolwr BID gael ei benodi, ac i nifer o brosiectau peilot bach, ond pwysig, gael eu cyflwyno. Wrth iddo dyfu ac aeddfedu, bydd y cyfle i'r BID ymgymryd â phrosiectau newydd, canfod arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cyflenwol a datblygu ei gyrhaeddiad daearyddol a sectoraidd (h.y. i ymdrin ag ardal ddaearyddol ehangach a dal llais rhannau eraill o'r sector preifat ym Mangor) hyd yn oed yn amlycach.

Ochr yn ochr â sefydlu Partneriaeth Strategol, mae hyn yn cynnig cyfle diffuant i Fangor gael llais clir a blaengar ar gyfer y gymuned fusnes, a fydd yn ei alluogi i ddatblygu ac arwain ar brosiectau strategol (pan a phryd fo hynny'n briodol).

**Heriau Allweddol**

### Yr Amgylchedd a Datblygiad

Mae cyflwr ffisegol eiddo yng nghanol y ddinas, yn benodol ar hyd y Stryd Fawr, o bryder parhaus. Roedd eiddo gwag ac adeiladau wedi mynd â'u pen iddynt yn cael eu crybwyll yn aml yn ystod yr ymgynghoriad, gan eu bod yn edrych yn annymunol ac yn rhwystr i lesiant economaidd. Roedd pwyntiau penodol a godwyd yn cynnwys blaen siopau mewn cyflwr gwael, ffenestri ar loriau uwch mewn cyflwr gwael, a

nwyddau dŵr glaw diffygiol yn achosi staeniau.

Gellir dadlau bod gwaith Tir y Cyhoedd, yn waith sydd wedi'i gynnal ac yn ardaloedd sydd angen sylw, wedi bod yn destun buddsoddiad arwyddocaol, ond heb fawr o effaith. Y buddsoddiad mwyaf yn hyn yw'r gwaith cymharol ddiweddar ar y Stryd Fawr a'r Llinell Amser.

Mae hefyd rhai ardaloedd nodedig sydd yn amlwg angen sylw, gan gynnwys Gerddi'r Beibl a'r ardal Lawnt Fowlio, ac yn benodol ardal yr Orsaf Reilffordd a Ffordd Deiniol. Mae pwysigrwydd yr ardal hon fel mynedfa i ymwelwyr i Fangor yn fater allweddol.

Yng nghyswllt gwaith tir y cyhoedd, gwnaeth ein ymgynghoriad ailddatgan y safiad bod cyflwyno prosiectau i safon uchel, hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod ardal lai yn cael sylw, yn fater pwysig a hanfodol y bydd yn rhaid i'r bartneriaeth a budd-ddeiliaid unigol ei ystyried yn ofalus.

Mae mynd i'r afael â'r defnydd, datblygiad pellach a hyrwyddo llwybrau troed a chysylltiadau i gyffiniau'r Ddinas yn fater allweddol sydd wedi dod i'r amlwg, yn enwedig o gwmpas bae Hirael a Mynydd Bangor.

Mae hefyd angen ystyried defnydd o adeiladau, yn benodol hyblygrwydd eu defnydd. Mae hyn yn cynnwys defnydd gwell o loriau uwch, yn enwedig yn yr ardal fasnachol ac ar gyfer defnydd proffesiynol.

Mae defnyddiau y tu allan i'r dref, a'r cynnig i leoli defnyddiau hamdden ar safle Bryn Cegin, hefyd angen cael eu hystyried yn ofalus. Argymhellir bod angen ystyried sut y gallai hyn gael ei ddatblygu fel blaenoriaeth yn hytrach na bygythiad.

### Perfformiad a Chynnig Busnes

Mae Canol y Ddinas yn parhau i frwydro, mae nifer o siopau gwag, ac mae ffabrig ac ansawdd nifer o siopau eraill yn bryder. Mae ambell siop o ansawdd uwch a nifer fechan o siopau arbenigol sy'n cynnig rhywbeth gwahanol a deniadol. Ond mae'r ddau is-gategori hyn yn dueddol o gael eu taflu i'r cysgod gan nifer o weithrediadau o ansawdd salach sy'n tanberfformio.

Mae nifer yr ymwelwyr yn bryder mawr, ac mae'n rheswm dros, ac yn ganlyniad o'r uchod. Mae'r Farchnad ar ddydd Gwener wedi gwella bywiogrwydd ac ysbryd prif ardal y Stryd Fawr, ac yn anecdotaidd mae'r maes parcio am ddim ym Maes Parcio Menai wedi annog mwy o bobl i ddod i'r Ddinas ei hun; fodd bynnag, mae

absenoldeb amlwg yr ymwelwyr wedi bod yn thema barhaus yn yr ymgynghoriad a nifer o ymweliadau safle.

Er bod y darlun yn gwella, mae hefyd diffyg amlwg o amrywiaeth yn nghynnig y bwyd, gyda dim ond nifer fechan o fwytai, caffis a thai coffi o ansawdd ar gael ar draws y Ddinas. Fel y nodwyd yn y Dadansoddiad Budd-ddeiliaid blaenorol, mae absenoldeb amlwg Sector Broffesiynol, yn rhannol oherwydd diffyg gwasanaethau, llety a pharcio addas, ac yn rhannol oherwydd atyniad safleoedd eraill megis Parc Menai, wedi cyfrannu at y broblem amlwg hon o broffil a chynnig ac wedi'i gaethygu.

Er gwaethaf ei ddynodiad fel y ganolfan is-ranbarthol, bydd Bangor, yn y tymor byr i ganolig, yn parhau i wynebu cystadleuaeth gref gan ganolfannau manwerthu cyfagos, a bydd yn rhaid iddi ddatblygu neges farchnata gref a chlir i ail-fywiogi calon fanwerthu a masnachol y Ddinas.

### Tai a Materion Iechyd

Fel y nodwyd yn gynharach, ac a waethygwyd gan ddyfodiad cyfres o ddatblygiadau llety myfyrwyr newydd, bu dirywiad yn ffabrig y tai a'r fflatiau a oedd yn cael eu meddiannu'n flaenorol gan y garfan arwyddocaol hon o boblogaeth y Ddinas, ac erbyn hyn mae problem weladwy o gwmpas ansawdd y tai, yn benodol o gwmpas canol y Ddinas.

Mae Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn 2016 yn dangos bod 67.8% o aelwydydd yn ardal ehangach Bangor wedi cael eu prisio allan o'r Farchnad Dai ar hyn o bryd, tra bod gan y Ddinas y nifer uchaf o bobl yn aros ar y cofrestr tai cyffredin (sef 460).

### Trefniadau'r Bartneriaeth

Mae sefydlu partneriaeth sy'n gwbl strategol yn ddatblygiad arwyddocaol a chadarnhaol i'r Ddinas. Bydd yn dod â'r Brifysgol a Pontio. Cyngor Gwynedd; Llywodraeth Cymru, y Sector Preifat, Cyngor Dinas Bangor, Grŵp Llandrillo Menai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau cymuned ynghyd i gynnig ymdriniaeth gydlynol i adfywio Bangor. Fodd bynnag, mae rhai tensiynau yn parhau, ac ambell agwedd o 'gamweithredu' y bydd yn rhaid derbyn sylw a'i oresgyn er mwyn i'r weledigaeth a'r strategaeth ennyn hygrededd a thyniant.


## 4. Y Cyd-destun Strategol

4.1 Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu gan roi ystyriaeth i faterion hanesyddol a pholisi cyfredol, yn benodol yn ymwneud ag Adfywio, Rheolaeth Canol Dref, Treftadaeth, Diwylliant, Eithrio Cymdeithasol a Thlodi, Treftadaeth a Chadwraeth Twristiaeth; yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cadw, Llywodraeth y DU, Cyngor Gwynedd a Chyngor Dinas Bangor.

Rydym hefyd wedi nodi pwyslais a dylanwad cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r cyfrifoldebau dyledus sydd nawr ar Awdurdodau Lleol a nifer o gyrff cyhoeddus eraill. Er nad yw nifer o sefydliadau megis colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion wedi'u hymrwymo i'r ddeddfwriaeth, mae'n werth nodi bod Prifysgol Bangor, fel sefydliad, wedi datgan yn gyhoeddus ei fwriadau i weithio tuag at yr un nodau ac uchelgeisiau.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym yn 2015. Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Ei brif ganolbwynt yw sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus yn meddwl mwy am y tymor hir, a gweithio'n well gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd, ac ystyried sut i atal problemau a defnyddio dull ymdrin sy'n fwy cydgysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar saith pennawd, sydd wedi'u gosod mewn diagram isod:




*Ffigwr 1 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae'r saith maes hyn yn berthnasol i'r adolygiad hwn.

Gyda'i gilydd, mae'r strategaeth wedi cael ei pharatoi mewn modd a fydd yn sicrhau, lle bo'n berthnasol ac yn strategol gyfreithlon, y gellir ei defnyddio i gefnogi ceisiadau am arian i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Ewrop, y Loteri, y Sector Preifat ac eraill.

Yn ystod cyfnod datblygu'r Strategaeth a'r Weledigaeth, roeddem hefyd yn ystyried nifer o faterion cyffredin a fyddai, heb os nac oni bai, yn cael effaith ar lwyddiant neu fel arall Bangor wrth symud ymlaen.

Mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanolfannau manwerthu yn y DU yn parhau i ddirywio, tra bod pwysau parhaus ar adnoddau sector cyhoeddus yn golygu bod adnoddau Llywodraeth Leol a llywodraeth ganolog a rhanbarthol, yn ariannol ac fel arall, yn dod yn fwyfwy prin. Mae cefnogaeth grant ar gyfer adfywio yn llai amlwg nag yr oedd yn y gorffennol, sydd eto'n adlewyrchu pwysau parhaus ar arian cyhoeddus.

Bydd diwygio lles yn parhau i waethygu'r problemau cymdeithasol-economaidd mewn rhannau o'r Ddinas, ac mae disgwyl iddo roi pwysau ychwanegol ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) a Thai Gogledd Cymru i reoli eu cyllidebau.

Yn ychwanegol, mae'r posibilrwydd o gael rhyw fath o ad-drefniant Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn parhau, er ers etholiadau'r Cynulliad fis Mai 2016, mae eglurder ar natur ac ehangder yr ad-drefniant hwnnw wedi mynd yn fwy amwys.

Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, mae dal nifer o gynlluniau ariannu ar gael ac mae rownd derfynol Rhaglenni Arian Ewropeaidd hefyd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol (sydd o bosib unwaith mewn oes), yn uniongyrchol i'r bartneriaeth, ac yn anuniongyrchol drwy bartneriaid megis y Brifysgol a'r Awdurdod Lleol.

Mae newid diwylliant yn y Brifysgol, gan ganolbwyntio ar effaith ehangach yn gymunedol ac yn economaidd, hefyd yn golygu bod partner 'bodlon' sydd ag adnoddau. Fodd bynnag, dylid hefyd nodi bod effaith Brexit yn debygol o gael effaith ar y Brifysgol mewn nifer o ffyrdd.

Mae datblygu datrysiad 'lleol' a all yrru'r adfywiad at y pwynt o gael llwyddiant masnachol a hyfywdra marchnad wedi bod yn ystyriaeth sylfaenol. Yn ystod yr ymgynghoriad, ac yn benodol drwy weithdai gyda'r Brifysgol a Chyngor Gwynedd,

cafodd y ddadl dros beth yw'r uchelgais i'r Ddinas ei grybwyll dro ar ôl tro. Yn ogystal, trafodwyd sefydlu meincnod ar gyfer lle mae Bangor yn sefyll fel cyrchfan a lle.

Ar sail hynny, bu i ni adolygu nifer o ddogfennau ac adroddiadau a oedd yn ceisio diffinio'r hyn sy'n gwneud Dinas Wych. Adnabuwyd y 10 ffactor a ganlyn, ar amryw ffurf, ac argymhellir i'r Bartneriaeth ei ddefnyddio, neu fersiwn ohono fel cefnlen bellach i symud y Strategaeth a'r Weledigaeth ymlaen.

Yn ei hanfod, os gellir rhoi tic wrth ymyl bob un o'r 10, yna gallai Bangor hawlio'n deg ei bod yn Ddinas wych, ac un a allai gystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r tabl isod yn dangos y 10 ffactor.

*Tabl 3 - Y 10 Ffactor Uchaf sy'n gwneud Dinas Wych*

| Y Deg Ffactor Uchaf | |
|---|---|
| 1. | Mannau gwyrdd, agored i'w rhannu |
| 2. | Diwylliant |
| 3. | Cysylltedd |
| 4. | Pensaernïaeth Hanesyddol ac amgylchedd adeiledig diddorol ac atyniadol |
| 5. | Bwyd Da |
| 6. | Perchnogaeth a Chyfleoedd i bawb |
| 7. | Perchnogaeth Gyhoeddus Breifat, Gweledigaeth a Rennir a Rheolaeth Dda |
| 8. | Cyfalaf Cymdeithasol - ysgolion, mwynderau cyhoeddus, lleoliadau manwerthu ac adloniant ('siopa gwych / 'gwario doeth') |
| 9. | Trigiadwy - Amgylchedd byw deniadol |
| 10. | Hunaniaeth Nodedig |

- Argymhellir fod y Bartneriaeth yn dechrau meincnodi'r Ddinas yn erbyn bob un o'r 10, ac yn alinio bob rhaglen waith arfaethedig yn erbyn un neu fwy o'r ffactorau. Fel templed cychwynnol, cynigiwn yr hyn a ganlyn gydag asesiad RAG o lle'r ydym yn ystyried i'r Ddinas fod yn 2016.

  Mae'r tabl isod yn ddangosol yn unig ar hyn o bryd. Rydym wedi awgrymu system RAG ar lefel strategol, ond efallai bod system sgorio o 1 - 10 yn fwy ymarferol ar lefel weithio.

*Tabl 4 - 10 Ffactor sy'n gwneud Dinas Wych - RAG*

| 10 Ffactor sy'n gwneud Dinas Wych - Bangor 2016 | | |
|---|---|---|
| **Ffactor** | **RAG** | **Gweithredoedd Arfaethedig** |
| 1. Mannau Gwyrdd | | |
| 2. Diwylliant | | |
| 3. Cysylltedd | | |
| 4. Pensaernïaeth Hanesyddol | | |
| 5. Bwyd Da | | |
| 6. Perchnogaeth a Chyfleoedd i bawb. | | |
| 7. Partneriaeth a Llywodraethu | | |
| 8. Cyfalaf Cymdeithasol | | |
| 9. Trigiadwy | | |
| 10. Hunaniaeth Nodedig | | |

Felly, mae swyddogaeth Partneriaeth Canol Dinas a sefydlu dull cadarn a chynaliadwy i yrru'r rhaglen hon ymlaen yn hanfodol, yn ogystal â chytuno ar y model llywodraethu a rheoli mwyaf priodol a dichonadwy.

Bydd yn rhaid i hyn gael ei ategu gan weledigaeth newydd i Fangor, ar sail ei ddyhead i fod yr hyn y mae'n ei olygu i fod y Ddinas orau, a phopeth sy'n nodedig ac sydd orau am fod yn Gymraeg (yn ei synnwyr ehangaf a fwyaf Catholig).

## 5. Partneriaid a Rhanddeiliaid

5.1. Mae'r Dadansoddiad Budd-ddeiliaid a ymgymerwyd fel rhagarweiniad i'r astudiaeth hon wedi adnabod nifer craidd o sefydliadau yr ystyrir i fod yn strategol hanfodol ar gyfer cyfeiriad y Ddinas at y dyfodol. Y rhain yw:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cyngor Dinas Bangor
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Grŵp Llandrillo Menai
- Partneriaeth Tai Strategol
- Y Sector Preifat (BID)

Er bod Pontio, yn ei hanfod, yn deillio o'r Brifysgol, roedd yr ymgynghoriad a'r adolygiad yn atgyfnerthu'r farn y dylai Pontio gael sedd ar wahân o gwmpas y bwrdd.

Mae'r angen i'r gymuned gael llais cryf, a bod wedi ymgysylltu'n llawn, hefyd yn hanfodol er mwyn symud y Ddinas ymlaen, er bod natur a ffurf y llais hwnnw, a'r modd y gellir ei gydlynu'n effeithiol, yn llai amlwg ar y pwynt hwn.

Mae sefydliadau arwyddocaol eraill wedi cael eu crybwyll, gan gynnwys Cadeirlan Bangor a Heddlu Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae gallu'r sefydliadau hyn i gyfrannu ar lefel strategol (oherwydd cyfyngiadau capasiti a blaenoriaethau strategol a pholisi eraill) yn golygu bod eu mewnbwn ar y lefel hon yn aneglur ar y pwynt hwn.

Rydym yn amlinellu'r partneriaid allweddol mewn rhagor o fanylder isod.

5.2. **Cyngor Gwynedd** yw, o bosib, y partner mwyaf allweddol mewn perthynas â chyfeiriad strategol Bangor. Mae ganddo amrediad o gyfrifoldebau statudol yn ogystal ag amcanion strategol. Yn 2015/16, £367 miliwn oedd Gwariant Refeniw Gros y Cyngor, a oedd yn cynnwys amrediad o gyfrifoldebau, yn cynnwys ysgolion, rheolaeth strategol a chydlyniad Buddsoddiad Tai a Gorfodaeth, cynnal a chadw ffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant a thwristiaeth, datblygiad economaidd ac Iechyd yr Amgylchedd.

Mae wedi bod yn rhan arwyddocaol mewn nifer o'r prosiectau, yn arian cyfalaf ac yn

arian refeniw, sydd wedi dwyn ffrwyth dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Gwelliannau Amgylcheddol gwerth £3.5m ar y Stryd Fawr, ac ymgysylltiad strategol a chyllidol ym Mhontio a Storiel, a Rheolaeth y Clystyrau Cymeundau yn Ward Marchog.

Mae ei waith yn cael ei lywodraethu gan ei Gynllun Strategol. Mae cynllun cyfredol (2013 - 17) yn gosod gweledigaeth, sy'n anelu at gyflawni:

*"Y gorau i bobl Gwynedd yn ystod cyfnod anodd"*

Mae'r Cynllun Strategol yn rhestru 16 amcan gwelliant ar draws saith maes thematig, gyda nifer ohonynt yn atseinio uchelgeisiau'r Strategaeth a'r Weledigaeth i Fangor.

- Cyngor Effeithiol ac Effeithlon
- Plant a Phobl Ifanc
- Gofal
- Diogelu
- Tlodi, Amddifadedd, yr Economi, Tai
- Yr Iaith Gymraeg
- Cynllunio Ariannol

5.3. **Llywodraeth Cymru**. Mae grymoedd datganoledig Cynulliad Cymru, a Pholisïau Strategol ei Lywodraeth, yn darparu'r cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer y Ddinas. Bydd llawer o'r hyn sy'n rhan o'r strategaeth a'r weledigaeth yn cael ei lywodraethu, ei ariannu neu ei gyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae ei ddylanwad yn cyrraedd pob agwedd ar fywyd ym Mangor, ac mae ei ymglymiad ar lefel strategol a gweithredol, felly, yn allweddol.

Mae 'Symud Cymru Ymlaen' yn gosod rhaglen Llywodraeth Cymru i yrru gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, yn ogystal â chyflwyno Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol a dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Llywodraeth Cymru. Mae Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yn amlinellu blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hynny.

Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n nodi sut y bydd yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu gyda chyflawni ei raglen i'r Llywodraeth.

Mae ei swyddogaeth yn gosod targedau ar gyfer Tai, lleihau Tlodi, Adfywio Canol Dinas, Sgiliau a Thwf Busnes, yn hanfodol. Mae eisoes wedi darparu'r cyllid craidd er

mwyn sefydlu'r Bartneriaeth Canol Dinas a'r Ardal Gwella Busnes, mae'n ariannu'r Fenter Cymunedau'n Gyntaf, ac mae posibilrwydd o gael rhagor o gyllid drwy ei Bortffolio Adfywio.

Yn y tymor canolig, mae'r posibilrwydd o Raglen ddilynol i Raglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig y posibilrwydd o gyllid hadu arwyddocaol i symbylu adfywiad y Ddinas. Er nad oes cadarnhad eto mewn perthynas â rhaglen newydd ai peidio, mae sefyllfa gyfredol y Ddinas yn gwarantu'r fath gais am arian.

5.4. Mae **Prifysgol Bangor** yn Fudd-ddeiliad Strategol Hanfodol yn y Ddinas. Yn ogystal â chynrychioli'r Bartneriaeth ffurfiannol, mae wedi chwarae rhan hanfodol yn natblygiad Dinas Bangor, ac mae'n cael ei gynrychioli ar Ardal Gwella Bangor. Mae ardal ddaearyddol y BID yn cynnwys Pontio, ond nid unrhyw ran fawr arall o ystâd y Brifysgol.

Yn ogystal â Phontio, mae nifer o gyfleusterau a lleoliadau hanfodol eraill sy'n wynebu'r cyhoedd, yn cynnwys Canolfan Brailsford a Chyfleuster Chwaraeon/Gerddi Botaneg Treborth, y Ganolfan Rheolaeth, Academi, Bar Uno, Teras a llyfrgell y Brifysgol. Mae nifer o'r rhain wedi derbyn arian allanol sy'n adlewyrchu'r ased cyhoeddus hwn. Gellir dadlau bod gan Bontio, yn rhinwedd ei £12.5m o gyllid ERDF strwythurol, £15.4m gan Lywodraeth Cymru, a £3.5m gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ynghyd â chefnogaeth refeniw parhaus gan CCC, swyddogaeth gyhoeddus a mandad arbennig o bwysig.

Mae nifer o ddatblygiadau mawr yn cael eu cynnal dros y blynyddoedd nesaf, a bydd gan rai effaith uniongyrchol iawn ar y ddinas. Un enghraifft o hyn yw ailddatblygiad y safle gwyddoniaeth ar Ffordd Deiniol.

Mae gan y brifysgol nifer o berthnasau busnes strategol ar lefel gorfforaethol; mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau gyda Horizon Nuclear Power a Siemens Healthcare Diagnostics (Llanberis). Gallai'r rhain hefyd gael effaith ar fywyd a gwaith yn y ddinas ac o'i chwmpas, yn ogystal ag yn y brifysgol.

Fel y disgrifiwyd yng Nghynllun Strategol Prifysgol Bangor 2015-2020, ei **Gweledigaeth** yw *"bod yn Brifysgol flaenllaw, a chanddi enw da yn rhyngwladol am addysgu ac ymchwil, a bydd yn magu datblygiad deallusol a phersonol ein myfyrwyr a'n staff, gan ddarparu amgylchedd cefnogol amlddiwylliannol, hyrwyddo ehangu mynediad a chynhwysiant a sicrhau bod ein gweithgareddau'n arwain at fudd amgylcheddol a chynnydd cymdeithasol o fewn economi gwydn*."

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i **gynaliadwyedd,** ac mae'n alinio ei hun yn strategol gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae hefyd yn cyfrannu'n economaidd yn sylweddol. Mae amryw astudiaethau wedi ystyried effaith economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac anwythol ehangach addysg uwch yn y DU.

Mae ffigyrau ar gyfer y sector yn awgrymu bod bob £1 o wariant a wneir werth £1.35 pellach i'r economi ehangach.

Gyda dros 8,000 o israddedigion, 2,600 o ôl-raddedigion ac oddeutu 2,000 o aelodau staff, trosiant blynyddol o oddeutu £140m a nifer o ddatblygiadau cyfalaf mawr sydd wedi digwydd yn ddiweddar (e.e. Pontio, safle Santes Fair, SEACAMS, datblygiadau safle Ffriddoedd), mae'r brifysgol yn a bydd yn parhau i fod yn yrrwr economaidd pwerus ar gyfer y ddinas a'r rhanbarth. Mae awydd i dyfu'n gymedrol yn unig yn rhifiadol dros y blynyddoedd nesaf, gan flaenoriaethu ansawdd y myfyrwyr yn hytrach na'u nifer, a boddhad myfyrwyr fydd y peth pwysicaf. Felly, mae awydd am dyfiant cymedrol yn nifer y staff academaidd er mwyn parhau i gyflwyno profiad gwych i fyfyrwyr.

**Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio** Er bod Pontio'n rhan o'r Brifysgol ehangach, mae wedi cael pennawd ar wahân yma oherwydd ei natur strategol o ran ei ddatblygiad strategol ar draws y ddinas. Dyma amcanion buddsoddi strategol y prosiect, fel yr amlinellwyd yn yr achos busnes ar gyfer Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol (SCIF) i Lywodraeth Cymru ac i WEFO:

***Amcan Buddsoddi 1: Adfywio***

***Amcan Buddsoddi 2: Arloesedd***

***Amcan Buddsoddi 3: Sgiliau***

***Amcan Buddsoddi 4: Y Celfyddydau a Diwylliant***

***Amcan Buddsoddi 5: Cymunedol***

Mae **cyfleusterau Arloesi** Pontio yn cynnig lle i'r brifysgol ehangach, y celfyddydau, gwyddoniaeth, peirianneg, busnes a dylunio i ddod ynghyd mewn cyfleuster ffisegol. Wrth gydnabod bod arloesedd yn digwydd mewn nifer o agweddau a chorneli o'r brifysgol, unwaith eto, mae Pontio yn gerbyd lle gallai'r fath bethau ddod yn fwy

gweladwy i'r gymuned ehangach, yn enwedig y gymuned fusnes. Cylch gwaith y cyfleusterau, sy'n cynnwys FabLab[1], MediaLab, MakerSpaces, Mannau Gwaith Cydweithrediadol, argraffwyr 3D o ansawdd diwydiannol, offer torri a phrototeipio, a gofod darganfod rhith Whitebox, yw gweithio gydag unigolion a busnesau ar gyfer llesiant economaidd yr ardal.

Bydd Pontio'n mwynhau safle strategol fel cyswllt rhwng dwy 'ran' safle'r Prif Celfyddydau a gwyddoniaeth, gan gysylltu Bangor uchaf ac isaf, a chysylltu'r 'ardal ddiwylliannol' gyda'r 'ardal wyddoniaeth a thechnoleg'.

5.5. Cymerodd **Cyngor Dinas Bangor** y teitl hwn gan fod Bangor wedi derbyn statws Dinas swyddogol ym 1974. Mae gan y Cyngor 20 o Gynghorwyr yn gwasanaethu wyth ward, a dyma ganolbwynt cymuned Bangor. Mae'n ffisegol ganolog i'r Ddinas, gyda'i swyddfeydd yng nghanol y ganolfan fasnachol.

Mae ganddo gyllideb gymharol fawr, gyda phraesept ar gyfer 2016/17 o £331,532.00. Mae'n gyfrifol am nifer o wasanaethau a chyfleusterau, a'r Pier yn fwyaf nodedig. Mae hefyd yn rheoli toiledau cyhoeddus ar y cyd, ac roedd yn gyfrifol am arwain y ceisiadau gan y Bartneriaeth Canol Tref a'r Ardal Gwella Busnes am arian gan Lywodraeth Cymru.

Dinas Bangor sydd hefyd yn berchen ar y Pier, ac mae wedi buddsoddi llawer iawn o arian i'w gynnal a'i gadw a'i ddatblygu.

Mae'n cynnig 'llais cymunedol' yn gyson ac yn atebol ddemocrataidd, ac er bod ei adnoddau'n gyfyngedig o gymharu ag adnoddau'r Brifysgol a Chyngor Gwynedd, mae'n rhoi mewnbwn strategol a phragmatig i'r broses adfywio. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi arddangos ei hun (yn amlwg ac yn bendant iawn) drwy ei arweinyddiaeth wrth gyflwyno a gweinyddu'r 'Cynllun Paentio' ar hyd y Stryd Fawr.

5.6. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**. Mae gan Fangor ran hanesyddol faith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar lefel isranbarthol; yn yr 20fed ganrif, daeth hyn fwyaf amlwg drwy Ysbyty C&A (Caernarfon ac Ynys Môn), a oedd yn sefyll yn lle mae archfarchnad Morrisons erbyn hyn, ac Ysbyty Mamolaeth Dewi Sant a oedd yn weithredol o 1910 hyd nes 1985.

---

[1] Mae FabLab Pontio yn aelod o rwydwaith rhyngwladol o oddeutu 500 cyfleuster o'r fath; mae'r rhain yn rhannu'r ethos o ddarparu offer a chefnogaeth technegol sy'n galluogi i ddefnyddwyr cymharol dibrofiad brototeipio 'bron unrhywbeth' mewn amgylchedd anffurfiol, cefnogol. Gweler: http://fabfoundation.org/fab-labs/

Daethpwyd â gwaith y ddau ysbyty, yn ogystal â gwasanaethau lleol eraill, ynghyd yng nghanol yr 80au, pan agorwyd Ysbyty Gwynedd. Yr ysbyty, sydd wedi'i leoli ym Mhenrhosgarnedd, yw Pencadlys Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gyfer gogledd Cymru gyfan hefyd.

Ar lefel strategol, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2015/16 yn nodi:

- *"Byddwn yn dangos bod y gofal a'r triniaethau y darparwn yn ddiogel, yn effeithiol ac yn dosturiol, gan weddu â dull "Iechyd Darbodus"'*
- *Byddwn yn datblygu gweithlu sydd â sgiliau eang, sy'n ymholgar, yn werthfawr, yn cael eu harwain yn dda ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.*
- ***Byddwn yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â'n hawdurdod lleol, y trydydd sector a phartneriaid eraill, i gyflwyno gwasanaethau a chefnogi cymunedau.***
- ***Byddwn yn adeiladu ar ein perthynas nodedig ac arloesol gyda Phrifysgol Bangor** ac yn gweithio'n agos gyda chyrff Addysg Uwch eraill, i drosi ymchwil, dysg ac arloesedd rhagorol i wasanaethau iechyd a llesiant gwell".*

O'r crynodeb hwn, gellir gweld bod y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan sylfaenol yn nyfodol y Ddinas. Mae ganddo bresenoldeb ffisegol a strategol arwyddocaol, ac mae ei wasanaethau a'i gefnogaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â nifer o ddiffygion cyfredol Bangor.

Mae ein hymgynghoriad â'r Bwrdd Iechyd yn awgrymu parodrwydd i gyflawni'r amcanion o weithio mewn Partneriaeth a bod â sedd ar y Bartneriaeth.

Fel y nodwyd uchod, mae'r berthynas â'r Brifysgol hefyd yn hanfodol bwysig, ac mae'n rhaid sylweddoli gwerth y cyfle i'r Ddinas gefnogi ac elwa o'r berthynas "nodweddiadol ac arloesol" hon.

5.7. **Grŵp Llandrillo Menai**. Mewn modd tebyg i Ysbyty Gwynedd, mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu perthynas ffisegol gyda'r Ddinas ers amser maith. Chwaraeodd Coleg Technegol Bangor, yna Goleg Technegol Gwynedd, ran allweddol yn narpariaeth Addysg Bellach yn y rhanbarth.

Fel rhan o'r Grŵp ehangach, mae Llandrillo Menai, y safle Menai ar Ffordd Ffriddoedd, yn parhau i chwarae rhan strategol ym mywyd y Ddinas.

Mae gan Gynllun Strategol 2015-2018 bedwar prif nod, sef:

- Cyflawni llwyddiant gwych i fyfyrwyr

- Cefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr mewn economi sy'n tyfu yng Ngogledd Cymru
- Cyflwyno cyfleoedd addysg a hyfforddiant drwy rwydweithiau a phartneriaethau effeithiol
- Bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n sefydlog yn ariannol.

Mae'r pedwar nod yn berthnasol i'r weledigaeth a'r strategaeth sydd gennym.

Mae trafodaethau cyfredol y Coleg ynghylch ei safle ym Mangor yn gwbl allweddol. Cafodd llawer o’r adeilad ei ddatblygu'n wreiddiol yn y 1960au a'r 1970au cynnar. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Rheoli yn adolygu ei ddewisiadau o ran dyfodol y safle, a deallwn fod nifer o ddewisiadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae ymgysylltiad â Grŵp Llandrillo Menai yn agwedd bwysig o ddatblygiad y Weledigaeth a'r Strategaeth, nid yn unig mewn perthynas â Ffordd Ffriddoedd, ond ar draws ei arlwy o wasanaethau a gweithgareddau.

Mae Pennaeth y Grŵp wedi cadarnhau ymrwymiad y Coleg i ymgysylltu â'r Bartneriaeth ar sail barhaus, a dylid datblygu a chefnogi'r berthynas hon.

5.8. **Partneriaeth Tai Strategol.** Heb os nac oni bai, mae tai yn un o'r prif faterion sydd angen sylw mewn perthynas â datblygiad, ffyniant a llesiant Bangor yn y dyfodol.

Gyda dros 25%[2] o'r stoc tai yn cael ei rentu gan Landlordiaid Cymdeithasol, o gymharu â chyfartaledd Gwynedd o 16.3% a chyfartaledd Cymru gyfan o 16.5%, mae'n rhaid sylweddoli gwerth swyddogaeth a dylanwad y rhan hon o'r farchnad dai.

Fel yr ymhelaethir arno mewn rhagor o fanylder yn hwyrach ymlaen yn yr adroddiad, er gwaethaf darpariaeth Landlordiaid Cymdeithasol sylweddol, a 30% arall sy'n cael eu rhentu'n breifat, mae ffigyrau cyfredol Cyngor Gwynedd yn dangos bod 460 o bobl ar y Gofrestr Tai yn disgwyl i gael eu lleoli.

Ffactor pellach yw nifer sylweddol o Dai Amlfeddiannaeth yn y Ddinas, gydag 88% o'r fath eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu lleoli ym Mangor.

Dylid nodi hefyd bod Cymdeithasau Tai wedi, ac yn parhau i, chwarae rhan gymdeithasol ac economaidd ehangach wrth adfywio cymunedau. Ar draws

2 Ffynhonnell = Cyfrifiad 2011

Gwynedd a'r rhanbarth ehangach, mae'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ym Mangor wedi datblygu prosiectau arloesol a chynaliadwy sydd wedi gwella a chefnogi cymunedau. Mae angen i'r fath ymdriniaethau gael eu mabwysiadu a'u hannog yng nghyd-destun Bangor (gan gydnabod bod llawer o waith clodwiw eisoes wedi digwydd).

Mae Partneriaeth Dai Strategol ffurfiol ar gyfer Gwynedd yn bodoli; mae hwn yn cwmpasu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a Chyngor Gwynedd fel y sefydliad strategol sy'n gyfrifol am gyfarwyddo cyllid Tai Llywodraeth Cymru yn y Sir.

Argymhellir bod y Bartneriaeth Strategol yn cael sedd ffurfiol o gwmpas bwrdd y Bartneriaeth.

5.9. **Y Sector Preifat (Ardal Gwella Busnes).** Un o nodweddion trawiadol o ran bywiogrwydd y Ddinas dros y ddwy flynedd diwethaf yw bod Ardal Gwella Busnes wedi cael ei sefydlu ar gyfer y Ganolfan Fasnachol. Mae hyn wedi darparu llais cydlynus a chyson ar gyfer Sector Preifat Bangor, ac mae wedi chwarae rhan ganolog yn natblygiad y weledigaeth a'r strategaeth hon dros yr 18 mis diwethaf.

Er bod y sector preifat yn llawer mwy na Chanol y Ddinas, gyda sefydliadau arwyddocaol ar draws y Ddinas, o Ffordd Caernarfon hyd at Ystâd Ddiwydiannol Llandygái a Pharc Menai, felly am y tro cyntaf, mae'n cynnig llais cryf a chynaliadwy ar gyfer adran allweddol o'r gymuned fusnes. Felly, mae ei fewnbwn ar lefel strategol yn cael ei gyfiawnhau.

5.10. **Partneriaid Strategol Eraill.** Mae nifer o sefydliadau eraill sydd â rhan allweddol i'w chwarae; fel y nodwyd yn gynharach, mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Gadeirlan yn cynnig mewnbwn unigryw ond pwysig i ddatblygiad y strategaeth a'r weledigaeth hon. Mae angen pennu a oes gan yr un y capasiti neu'r flaenoriaeth o fewn eu sefydliadau perthnasol.

5.11. Mae ymgysylltiad **cymunedol** wedi profi i fod y peth anoddaf i'w ddatrys. Mae gan Bobl Grŵp Cymunedol Bangor amlygrwydd o fewn y Ddinas, ond mae ymglymiad wedi bod yn ysbeidiol ac yn anghyson. Mae hefyd materion yn ymwneud â gallu'r sefydliad i gynrychioli llais bob cymuned o fewn Bangor.

Fodd bynnag, er ei fod yn broblem ddyrys iawn, mae angen i'r Bartneriaeth ystyried sut y gall sicrhau bod y Weledigaeth a'r Strategaeth yn mynd â'i dinasyddion gyda hi, ac ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu gyda'i chymunedau. Efallai y byddai gweithio gyda'r Brifysgol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn rhoi rhan o'r datrysiad i hyn; oherwydd rhyngddynt, maent yn cynrychioli cyfran

arwyddocaol o drigolion y Ddinas.

5.12. **Partneriaid Eraill**. Mae cyflwyniad y Weledigaeth a'r Strategaeth yn seiliedig ar gael Partneriaeth Strategol, a ategir gan dri llif gwaith sy'n canolbwyntio ar dair thema: Datblygiad ac Amgylchedd; Economi a Hyrwyddo, a Thai, Iechyd a Llesiant. Byddwn yn rhoi sylw i'r mater hwn mewn rhagor o fanylder yn yr adran nesaf.

## 6. Modelau Cynaliadwy ar gyfer Darpariaeth y Dyfodol

6.1. Nododd y Dadansoddiad Budd-ddeiliaid dechreuol, a gynhaliwyd yn 2015, y dylai'r Bartneriaeth:

*"...gynnwys y prif fudd-ddeiliaid...a dylai gael ei gefnogi gan sefydliad lletyol gyda'r capasiti a'r adnoddau i reoli a chydlynu'r broses yn effeithiol."*

a bod

*"Grwpiau Thematig yn cael eu sefydlu er mwyn gyrru cyflawniad elfennau penodol o'r Strategaeth Datblygu a'r Cynllun Gweithredu yn eu blaenau, a arweinir gan fudd-ddeiliad penodol neu Fudd-ddeiliad allweddol a all ddylanwadu, gan gynnwys budd-ddeiliaid perthnasol dylanwadol a thrawiadol."*

Mae Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bartneriaeth Strategol a'r Grwpiau Thematig wedi'u hatodi yn Atodiad III.

Yn amlwg, mae perthynas waith dda rhwng rhai o'r budd-ddeiliaid allweddol ym Mangor. Fodd bynnag, does dim dwywaith y gellid gwella rhai perthnasau, ac ailymweld ag eraill i adlewyrchu deinameg sy'n newid yn lleol, a newidiadau polisi yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Drwy'r broses ymgynghori, mae hefyd wedi dod i'r amlwg bod ewyllys ac awydd ymysg eraill i weithio gyda'r tîm i ddatblygu prosiectau ar y cyd. Fodd bynnag, ni waeth pa mor werthfawr ei fwriadau, heb sefydliad cynaliadwy neu led gynaliadwy mewn lle, mae hanes llefydd eraill yng Nghymru a'r DU yn awgrymu y bydd y bartneriaeth yn methu yn y pen draw.

Felly, mae angen hanfodol i bennu pa fodel neu strwythur sefydliadol, os unrhyw un o gwbl, sydd â'r capasiti, y ffocws a'r ymrwymiad i yrru adfywiad y Ddinas yn ei flaen.

6.2. Strwythur

Mae ein hadolygiad wedi cadarnhau'r angen i'r TCP ailymweld â'i ddiben a'r berthynas a ddiffinnir, a'i fod yn cael ei ategu gan reolaeth prosiect effeithiol, capasiti ac adnoddau, ac awdurdod.

Prif egwyddorion y TCP yw y dylai, yn y pen draw, gario ei awdurdod ei hun i wneud penderfyniadau ar yr adnoddau sydd ar gael iddo, h.y. cyllid TCP a ffynonellau cyllid allanol posib eraill.

Wrth symud ymlaen, bydd yn rhaid i'r TCP fabwysiadu Proses Rheoli Prosiect mwy cadarn, ac nid yn unig cyflawni ond hefyd monitro a mesur ei gynnydd yn erbyn yr allbynnau a'r deilliannau a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu cael Corff Arweiniol Gweinyddol cadarn, cynaliadwy sy'n fasnachol hyfyw, gan fod yn gyfrifol am gyflymu'r broses o sicrhau bod cyngor arbenigol yn cael ei dderbyn; cyfethol swyddogion ac aelodau perthnasol ar Dimau Prosiect, a datblygu cysylltiadau gwirioneddol ac ystyrlon gydag ymdrechion cydweithio perthnasol, yn fwyaf penodol mewn partneriaeth â'r BID a sefydliadau allweddol megis y Brifysgol.

Yn ddelfrydol, dylai hwn fod yn sefydliad unigol, gan ganolbwyntio'n unigol ar adfywio a thyfu economi a ffyniant y Ddinas. Gweler isod rai dewisiadau i'r bartneriaeth eu hystyried.

6.3. Dewisiadau Sefydliadol

Cydnabyddir y gallai'r Brifysgol, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, ac o bosib y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), fod y chwaraewyr mwyaf o ran adnoddau a mewnbwn strategol. Fodd bynnag, mae gan y rhain oll gylchoedd gwaith penodol a safbwyntiau y tu hwnt i'r Ddinas ei hun (er bod y Brifysgol wedi'i lleoli yn y Ddinas ei hun, mae ei chyrhaeddiad a'i swyddogaeth yn llawer ehangach). Yn realistig, dim ond sefydliad sydd â'i wreiddiau a'i gyfrifoldebau wedi'u creiddio yn y Ddinas ei hun sy'n medru cynnig y fath ddatrysiad mewn modd ystyrlon.

6.4. Dewisiadau ar gyfer Cyflawni

Gellir ystyried nifer o ddewisiadau eraill:

Ardal Gwella Busnes.

Mae ei gryfderau’n cynnwys:

- Ffrwd incwm cynaliadwy ar gyfer y tymor byr i ganolig

- Dal llais y sector
- Swyddog penodol
- Potensial i ymgeisio am arian grant arall a datblygu asedau.

Gwendidau:

- Capasiti cyfyngedig iawn (ar hyn o bryd)
- Sefydliad newydd, heb lawer o brofiad yn y maes hwn.
- Canolbwyntio ar Ganol y Ddinas, nid y Ddinas gyfan. Manwerthu yn llywodraethu.
- Canolbwyntio ar y Sector Preifat.

Cyngor Dinas Bangor

Mae ei gryfderau’n cynnwys:

- Sefydliad lletyol gwydn, gyda chyfreithlondeb gwleidyddol sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y Ddinas.
- Arwain ar y bartneriaeth
- Staff ymroddedig
- Gwerthfawrogiad o faterion allweddol yn lleol, a'r gallu i ymgysylltu â'r gymuned

Gwendidau:

- Capasiti cyfyngedig iawn i ymgysylltu ac arwain ar weithgareddau y tu hwnt i'r rhaglen gyfredol o weithgareddau
- Diffyg consensws ymysg cynghorwyr am y blaenoriaethau a swyddogaeth Cyngor y Ddinas.
- Nid yw isadeiledd Rheoli Rhaglen yn ei le.

Pobl Grŵp Cymunedol Bangor

Mae ei gryfderdau'n cynnwys:

- Seiliedig yn y gymuned
- Profiad o redeg gweithgareddau yn y Ddinas
- Cyfreithlondeb lleol

Gwendidau:

- Ansicrwydd dros ddyfodol y grŵp
- Capasiti a phrofiad cyfyngedig
- Ddim wedi ymgysylltu'n llawn â phob ardal o'r Ddinas (ar hyn o bryd)
- Nid oes unrhyw brosesau rheoli rhaglen cadarn yn eu lle.

Sefydliad Newydd (Ymddiriedolaeth Ddatblygu Bangor)

Yn absenoldeb sefydliad arall yn "camu i'r adwy", mae sefydlu menter gymdeithasol neu sefydliad trydydd sector newydd, sy'n canolbwyntio ar adfywio canol y ddinas ac arwain ar y bartneriaeth, hefyd angen ei ystyried.

Er y gallai goblygiadau Adroddiad Williams ar ad-drefniant llywodraeth leol olygu bod deilliant rhywfaint yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd cyn yr Etholiadau Cynulliad diwethaf (oherwydd newid yn y Gweinidogion); heb os nac oni bai, mae gallu Awdurdodau Lleol i ymyrryd ac arwain ar fentrau lleol penodol yn dod yn fwyfwy cyfyngedig.

Byddai'n rhaid i unrhyw sefydliad newydd dyfu mewn modd organig ac mewn modd pragmatig a mesuredig. Fodd bynnag, gallai hefyd ystyried datblygiad asedau hirdymor a chreu incwm cynaliadwy. Gallai'r posibilrwydd o drafod trosglwyddo asedau gyda'r Awdurdod Lleol a grwpiau cyhoeddus a phreifat a thrydydd partïon eraill fod yn ystyriaeth hirdymor i'r sefydliad wrth iddo dyfu.

Gallai Cryfderau Posib gynnwys:

- Cwrdd ag angen strategol a chymunedol
- Dim '*baggage*' hanesyddol
- Enghreifftiau arfer gorau yn rhywle arall, a chefnogaeth cyfoedion drwy sefydliadau megis WCVA, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu, ac ati.

Gwendidau:

- Dyblygiad posib â sefydliadau eraill
- Dim asedau a dim capasiti
- Llawer o risg
- Amheuaeth yn y gymuned
- Absenoldeb rhiant-sefydliad neu entrepreneur cymdeithasol sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb.

6.5. **Trosglwyddo Asedau**

Er ei fod yn drafferthus, gallai'r posibilrwydd o drafod trosglwyddo asedau gyda'r Awdurdod Lleol a grwpiau cyhoeddus a phreifat a thrydydd parti eraill fod yn ystyriaeth hirdymor i'r Bartneriaeth wrth iddo dyfu. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddo gael gyrrwr i wneud hynny. Felly, gallai ymddiriedolaeth ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu swyddfeydd uwch ben siopau ac ymyrryd yn y farchnad i brynu eiddo eraill yng Nghanol y Ddinas fod yn un dewis.

6.6. **Swyddfa Rhaglen**

Os yw'r strategaeth a'r weledigaeth arfaethedig yn codi momentwm ac yn sicrhau'r adnoddau i gyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu a amlinellir yn y strategaeth hon, bydd angen Swyddfa Rhaglen ymroddedig.

I rannau helaeth, byddai hyn yn mynd i'r afael â'r ddadl am ba sefydliad ddylai arwain y Bartneriaeth wrth symud ymlaen (yn y tymor byr i ganolig o leiaf), ac yn rhoi digon o amser i'r Bartneriaeth bennu'r cerbyd mwyaf addas ar gyfer cyflawni'r Rhaglen yn yr hirdymor.

O dan y rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid, ymgeisiodd rhai ardaloedd, ac roeddent yn llwyddiannus yn cael arian i reoli a chydlynu gweithgareddau.

Yn ystod yr ymgynghoriad gydag Awdurdodau Lleol yn 2013/14, ac mewn ymateb i'r cynigion dechreuol, nododd Llywodraeth Cymru yr hyn a ganlyn:

"Codwyd pryder am lefel yr adnoddau sydd ei angen i gyflawni rhaglenni mawr mewn cyfnod lle mae strwythurau staffio awdurdodau lleol o dan bwysau cynyddol."

Ers hynny, mae pwysau ar Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill wedi cynyddu, ac mae'r angen am adnodd penodol i reoli'r broses hon yn amlycach nag erioed.

Pa bynnag sefydliad sy'n arwain ar gyflwyno cais ar ran y Bartneriaeth am gyllid (pe byddai rhaglenni cyllido'n dod ar gael), argymhellir bod y Swyddfa Rhaglen wedi'i leoli o ddydd-i-ddydd yn y Cyngor Dinas, neu o fewn cyrraedd ymarferol.

Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer tîm prosiect ymroddedig sydd wedi'i leoli'n lleol a allai weithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni lleol. Er y byddai'r cyfrifoldeb am gyflawni prosiectau yn adlewyrchu'r trefniant mwyaf priodol ar gyfer pob prosiect, bydd pob rheolwr prosiect yn adrodd yn rheolaidd i'r rheolwr rhaglen, a fydd yna'n adrodd i'r Bartneriaeth."

## 7. Themâu a Chynllun Gweithredu

7.1. Wrth ddatblygu themâu a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth a'r Weledigaeth i Fangor, mae dwy uchelgais strategol llywodraethol sylfaenol yr argymhellir bod y Bartneriaeth yn alinio'i hyn â nhw, ac yn anelu i'w cyflawni.

Y rhain yw:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Y 10 Ffactor sy'n gwneud Dinas Wych.

Trafodwyd y ddau beth yma mewn manylder ymhellach ymlaen yn yr adroddiad, ond mae moesoldeb ac aliniad strategol y cyntaf, a rhesymeg busnes ar gyfer llwyddo yn yr ail yn cynnig templed cadarn i fod yn droshaen i'r Rhaglen Weithgareddau.

Yn y Cynllun Gweithredu a'r Proffiliau Prosiect, byddwn yn dangos sut mae pob ymyrraeth yn cwrdd ag un neu fwy o amcanion y ddau.

Isod, rydym yn nodi'r tair thema ar gyfer gyrru'r Strategaeth ymlaen, sef:

- Datblygiad a'r Amgylchedd
- Economi a Hyrwyddo
- Tai, Iechyd a Llesiant

7.2. **Datblygiad a'r Amgylchedd**

Fel yr amlinellwyd eisoes, amcan cyntaf yr astudiaeth hon yw datblygu a mewnosod strwythurau rheoli cadarn ar gyfer y Bartneriaeth Canol Dinas.

Cam dau yw '...datblygu gweledigaeth a rhaglen adfywio cydlynol strategol sy'n cael eu gyrru'n economaidd ar gyfer Canol y Ddinas.' Un o'r prif themâu o fewn y Strategaeth hon yw Datblygu a'r Amgylchedd.

Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar fod yn ymarferol ac yn 'barod am fuddsoddiad'. Dylid cyfeirio'r gwaith a gyflwynir o dan thema Datblygiad a'r Amgylchedd tuag at y nod hwn.

Ni ddylid ystyried y nodau o greu gwell amgylchedd a gwella gobeithion economaidd y ddinas fel dau nod ar wahân.  Os eir i'r afael â'r gwaith yn iawn,

maent yn symbiotig ac nid yn gyfyngedig.

### **7.2.1.** Adolygiad o Astudiaethau Blaenorol

Dros nifer o flynyddoedd, bu llu o astudiaethau a rhaglenni gwaith dilynol i weithredu, sydd wedi anelu i ddadansoddi a gwella amgylchedd adeiledig Bangor.

Aed i'r afael â rhai er mwyn gwella'r amgylchedd adeiledig yn unig bron, ac eraill yn canolbwyntio'n agosach ar greu effaith economaidd o fudd. Fel y nodwyd uchod yn 1.4, ni ddylai'r ddau fod yn berthnasol i'r ddwy ochr.

Mae'n werth nodi bod nifer o'r astudiaethau hyn wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnodau pan oedd adnoddau i fuddsoddi mewn gwaith tir y cyhoedd ar gael yn haws. Gan hyd yn oed wrth ystyried hyn, un o'r ffactorau mwyaf trawiadol wrth adolygu'r astudiaethau hyn yw'r bylchau wrth weithredu. Nid oes yr un o'r rhain wedi cael eu gweithredu'n llawn, a rhai prin o gwbl.

Ymgymerwyd â'r astudiaeth berthnasol mwyaf diweddar wedi'i gomisiynu gan Taylor Young, 'Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwaith Tir Cyhoeddus ym Mangor', ac adroddwyd arno fis Rhagfyr 2009. Briff yr astudiaeth hon oedd,

*'...darparu sylfaen ar gyfer newid trawsffurfiol, ac i,*

*'...gryfhau hyder y buddsoddwr (boed yn...fusnes, eiddo neu boblogaeth y Ddinas).'*

Roedd yr astudiaeth Taylor Young yn drylwyr iawn yn ei ddadansoddiad o'r sefyllfa ar y pryd, ac roedd yn uchelgeisiol yn y cynigion yr oedd yn eu cynnig. Roedd hefyd yn ymgorffori ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a oedd yn arwain y cynigion a gyflwynwyd.

Roedd Astudiaeth Taylor Young yn rhagweld rhaglen weithredu deng-mlynedd, felly rydym yn dechnegol yn dal o fewn y cyfnod hwn. Cafodd y Cynllun Gweithredu ei flaenoriaethu, ei raddoli, ei gostio a'i feirniadu ar ei allu i gyflawni. Mae rhannau nodedig o'r cynllun wedi cael eu gweithredu, yn benodol y gwaith ar y Stryd Fawr yn cynnwys y dehongliad 'llinell amser' ac agor gerddi Tan y Fynwent. Bu gwahanol ymatebion i'r cynlluniau hyn ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Mae hwn yn sylw anecdotaidd iawn ond, lle bod cynllun Tan y Fynwent wedi cael ei dderbyn â chanmoliaeth lwyr, bu sylwadau cymysg am y gwaith ar y Stryd Fawr, yn enwedig mewn perthynas â'r gost.

Efallai ei fod yn ddisgwyliedig o ystyried natur uchelgeisiol y Cynllun Gweithredu, ond nid yw rhannau mawr o'r gwaith arfaethedig wedi cael eu gweithredu. Yn benodol, gellir amlygu'r gweithrediadau a awgrymir mewn perthynas â Ffordd Deiniol, yr Orsaf Reilffordd a'r Cynllun Gwella Blaen Siopau; er y dylid nodi na dderbyniodd rhai o'r cynlluniau na gafodd eu gweithredu y flaenoriaeth uchaf.

O ran adroddiadau blaenorol, yn y 25 mlynedd diwethaf bu nifer o adroddiadau ar nifer o bynciau gwahanol ond perthnasol, Dylunio a Threftadaeth Trefol, Trafnidiaeth, Tir y Cyhoedd, Cyfleoedd Datblygu. Yn amlwg, y pellaf yn ôl yr eir mewn amser, y lleiaf perthnasol yw'r cynigion a'u gweithrediad, ond nodir y prif astudiaethau perthnasol a'u canlyniadau isod:

- **Astudiaeth Dylunio a Chadwraeth Trefol Bangor, Tachwedd 1995**
- **Gwerthusiad ac Adolygiad o'r Ardal Gadwraeth Mawrth 1996**
- **Adroddiad Gwelliannau Amgylcheddol, Mawrth 1996.**

Mae'r tair astudiaeth gysylltiedig hyn, oll wedi'u cynnal gan BDP, wedi ymgymryd â gwerthusiad manwl ac yna cynigion i ailddiffinio'r Ardaloedd Cadwraeth, ac i dri phrif faes o Welliannau Amgylcheddol.

Yn dilyn yr adroddiadau, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Ardaloedd Cadwraeth, a dim ond un o'r cynlluniau amgylcheddol gafodd eu gweithredu'n rhannol.

- **Ardal Cadwraeth Bangor, Cynllun Cadwraeth a Strategaeth Cyflawni, Ionawr 2002**

Cafodd yr astudiaethau cysylltiedig hyn eu cynnal gan TACP ac roeddent yn canolbwyntio ar yr amgylchedd adeiledig, o ran sut y gallai Bangor elwa o gynllun i wella'r ffabrig adeiledig ac ar waith tir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Ni weithredwyd ar y newidiadau a awgrymwyd i'r Ardaloedd Cadwraeth nag ar y Gwelliannau Amgylcheddol.

O'r adolygiad cryno hwn, gellir gweld bod nifer o astudiaethau trylwyr a manwl, gan Taylor Young yn ôl yng nghanol y 1990au, wedi'u cynnal gan ymarferwyr adnabyddus mawr eu parch. Nid yw eu casgliadau wedi cael eu gweithredu, naill ai yn llawn neu ar brydiau ddim o gwbl. Nid yw gweithrediad y cynlluniau a awgrymir naill ai wedi mwynhau cefnogaeth lawn y cyrff comisiynu, neu nid

oedd digon o adnoddau i'w gweithredu

### 7.2.2. Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Trafodir y prif themâu a deilliannau'r broses ymgynghori mewn rhan arall o'r adroddiad. Bydd yr adran hon yn mynd i'r afael â'r prif themâu a'r deilliannau wrth iddynt fod yn berthnasol i ac effeithio ar Ddatblygiad a'r Amgylchedd.

Roedd y prif feysydd ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, busnesau unigol a Network Rail. Mae'r prif themâu wedi'u nodi isod, ond nid yw ymatebwyr unigol wedi cael eu nodi.

- Roedd trafnidiaeth, ei isadeiledd, ei ddefnydd a gwelliannau posib, yn thema gyffredin ymysg yr holl ymatebwyr. Dyma'r prif faterion a godwyd:

    - Pwysigrwydd yr Orsaf Reilffordd, ei osodiad a'i ddynesfeydd.
    - Parcio - derbyniwyd amrywiaeth mewn barn, ond roedd y mwyafrif yn teimlo nad oedd parcio yn gymaint o broblem ag y canfuwyd yn aml. Teimlwyd bod prisiau yn broblem, a nodwyd rhai anghysondebau.
    - Crybwyllwyd pwysigrwydd y mynedfeydd i Fangor yn aml, yn enwedig y rheini o Ffordd Caergybi a Ffordd Caernarfon.

- Mae'r Amgylchedd Adeiledig a Thir y Cyhoedd hefyd yn cael ei grybwyll yn aml yn yr ymgynghoriadau. Yn bennaf, dyma'r pwyntiau a godwyd:

    - Cyflwr ffisegol eiddo yng nghanol y ddinas, yn benodol ar hyd y Stryd Fawr.
    - Roedd eiddo gwag ac adeiladau wedi mynd â'u pen iddynt yn cael eu crybwyll yn aml, gan eu bod yn edrych yn annymunol ac yn rhwystr i lesiant economaidd.
      Roedd pwyntiau penodol a godwyd yn cynnwys blaen siopau mewn cyflwr gwael, ffenestri ar loriau uwch mewn cyflwr gwael, a nwyddau dŵr glaw diffygiol yn achosi staeniau.

- Roedd gwaith Tir y Cyhoedd, yn waith sydd wedi'i gynnal ac yn ardaloedd sydd angen sylw, yn destun nifer o sylwadau, ond gyda gwahaniaethau barn. Roedd nifer yn teimlo bod symiau mawr o arian wedi cael ei wario, heb fawr o effaith. Y pwynt pennaf ymysg y rhain

oedd y gwaith cymharol ddiweddar ar y Stryd Fawr.

- Crybwyllwyd ardaloedd penodol fel rhai a oedd angen sylw; yn cynnwys Gerddi'r Beibl a'r ardal Lawnt Fowlio ac, yn benodol, ardal yr Orsaf Reilffordd a Ffordd Deiniol. Amlygwyd pwysigrwydd yr ardal hon fel mynedfa i ymwelwyr i Fangor yn aml.

- Gwnaethpwyd un sylw fwy nag unwaith mewn perthynas â gwaith tir y cyhoedd, sef ei bod yn bwysig gwneud pethau'n dda ac i safon uchel, hyd yn oed pe byddai hynny'n golygu bod sylw'n cael ei roi i ardal lai.

- Crybwyllwyd pwysigrwydd llwybrau troed a chysylltiadau i gyffiniau'r Ddinas, yn enwedig o gwmpas bae Hirael a Mynydd Bangor.

- Roedd defnydd o adeiladau, yn benodol hyblygrwydd eu defnydd, hefyd yn bwynt a godwyd yn aml. Roedd defnydd gwell o loriau uwch, yn enwedig yn yr ardal fasnachol ac yn enwedig ar gyfer defnydd proffesiynol yn bwynt a gafodd ei grybwyll fwy nag unwaith. Teimlwyd bod defnyddwyr sector cyhoeddus, yn benodol defnyddwyr addysgol, mewn mwy o gyswllt â'u cymunedau ac y byddai ganddynt effaith economaidd fwy buddiol pe byddent yn cael eu lleoli yng nghanol y ddinas.

  Teimlwyd ei bod yn bwysig iawn nad oedd hyblygrwydd y fath ddefnyddiau yn cael eu llesteirio gan ystyriaethau polisi.

- Gwnaeth y defnyddiau arfaethedig y tu allan i'r dref, yn enwedig y cynnig i leoli defnyddiau hamdden yn safle Bryn Cegin, godi ambell bryder; fodd bynnag, ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y byddai'n ychwanegu at atyniad Bangor fel lleoliad.

### 7.2.3. Datblygu a'r Amgylchedd - Themâu a Meysydd Gweithredu

Bydd yr adran hon yn ymdrechu i adnabod themâu a meysydd gweithredu a fydd o fudd i Ddatblygu a'r Amgylchedd. Gellir datblygu'r rhain i fod yn rhan o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drwy adnabod prosiectau, ond mae'n rhaid iddynt fod yn realistig, yn gyraeddadwy ac yn canolbwyntio ar fudd economaidd a chymdeithasol i'r ddinas.

**Ffabrig yr Adeilad**. Mae cyflwr ffabrig yr adeilad, yn enwedig o fewn y craidd

manwerthu, yn broblem. Mae Bangor yn adnabyddus am fod â Stryd Fawr eithriadol o hir ynghyd â chraidd manwerthu llawer ehangach nag y disgwylir fel arfer mewn ardal drefol o'r maint hwn. Mae newidiadau mewn arferion manwerthu wedi rhoi pwysau mawr ar yr ardal manwerthu, yn enwedig ar y cyrion.

**Y Craidd Manwerthu.** Er nad yw bendant yn unigryw i Fangor, mae'r crebachiad hwn o'r craidd manwerthu wedi arwain at adeiladau gwag nad ydynt, yn ddealladwy mewn nifer o achosion, yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.

**Yr Amgylchedd Adeiledig** Mae archwiliad allanol gweledol rhagarweiniol o'r adeiladau wedi amlygu nifer o broblemau gyda'r adeiladau. Gellir torri'r rhain i lawr i nifer o ardaloedd.

- Toeau - mae rhai llechi wedi llithro ac ar goll, ac mewn rhai achosion, mae toeau sy'n dod at derfyn eu hoes.
- Nwyddau dŵr glaw - Dirywiad mewn nwyddau haearn bwrw sy'n arwain at gyrydiad, gollyngiadau a staenio. Gwteri wedi'u blocio yn arwain at orlifo, staenio a difrod posib.
- Ffasadau - Mae unedau uwchben lefel y stryd lle mae diffyg atgyweirio a chynnal a chadw yn achosi problemau amlwg.
- Blaen siopau - blaen siopau â golwg treuliedig, weithiau mewn unedau traddodiadol da sydd o bosib yn atyniadol ond sydd â diffyg gwaith cynnal a chadw, yn aml yn gosmetig yn unig, ddim yn cael eu dangos ar eu gorau.
- Manylion - Mae nifer o adeiladau o fewn yr ardal manwerthu lle mae manylder traddodiadol mân, er enghraifft gwaith plastro a gwaith haearn, sydd angen sylw neu ddim yn cael ei ddangos i'r effaith orau.

Nid cwestiwn o edrychiad gweledol ac estheteg yn unig yw hyn, er bod hynny'n bwysig. Gall wyneb cyhoeddus adeiladau helpu i greu amgylchedd cadarnhaol ac annog hyder, ar gyfer perchennog yr adeilad a'r cyhoedd fel ei gilydd. Mae dimensiwn economaidd o dan yr wyneb cyhoeddus.

**Mannau Cyhoeddus**. Fel yr amlinellwyd uchod, dros y blynyddoedd bu nifer o astudiaethau a gwariwyd llawer iawn o arian ar waith tir y cyhoedd. Pan gâi ei ddylunio a'i weithredu'n llwyddiannus, gall y rhain gael effaith fuddiol iawn, yn debyg iawn i waith gwella adeiladau. Gellir creu effaith economaidd gadarnhaol drwy waith tir y cyhoedd effeithiol.

Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, nid yw nifer o'r cynlluniau sydd wedi deillio

o'r astudiaethau, er eu bod â'r bwriad gorau ac wedi'u dylunio'n dda, wedi cael eu gweithredu neu mae cynlluniau eraill sydd wedi cael eu cychwyn wedi derbyn ymatebion cymysg.

Mae nifer o fannau yn y ddinas sy'n ymgeiswyr ar gyfer sylw pellach - dyma'r prif fannau:

- **Yr Orsaf Reilffordd a'i ddynesfeydd**. Mae pwysigrwydd yr Orsaf Reilffordd i Fangor wedi cael ei nodi. Gyda phoblogaeth myfyrwyr mor uchel mewn perthynas â'r preswylwyr, mae ganddo effaith arbennig o uchel ar argraffiadau cyntaf wrth gyrraedd Bangor.

  Mae pellter ac arwahanrwydd ymddangosiadol yr orsaf o'r ddinas, o ran pellter a chyfluniad y Briffordd, yn anffodus. Yn ei hanfod, ni ellir ei newid, ond gellir ei wella.

  Yn ddiweddar, mae gwaith adnewyddu helaeth wedi digwydd yn adeiladau'r orsaf, gan gynnwys adeilad gwreiddiol yr orsaf sy'n adeilad rhestredig Gradd II, a threfniadau'r maes parcio gyda rhagor o lefydd parcio mewn lleoliad newydd i gyfeiriad Ffordd Caernarfon yr orsaf.

  Mewn trafodaethau â Network Rail, mae'n amlwg er bod cynlluniau ar gyfer rhywfaint o waith ail-bwyntio waliau ac ail-doi i atal dŵr rhag dod i mewn, nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cynnal a chadw ar raddfa fawr. Fodd bynnag, maent bob amser yn barod i drafod syniadau a byddant yn fodlon ymgysylltu â Phartneriaeth Bangor. Roedd un maes trafodaeth yn canolbwyntio ar welliannau posib wrth gyrraedd Bangor ar hyd Ffordd Caernarfon, yn enwedig y pontydd rheilffyrdd. Roedd Network Rail yn fodlon iawn trafod syniadau, ond bu iddynt roi rhybudd mewn perthynas â'r costau uchel y gellir eu derbyn o ganlyniad i ystyriaethau diogelwch a gweithredol.

- **Ffordd Deiniol**. Er ei fod y brif ffordd drwy'r ddinas sy'n pontio defnyddiau pwysig ar y ddwy ochr, mae Ffordd Deiniol wedi tueddu i fynd rhywfaint yn angof o ran cynigion i'w wella.

  Fel rhan o strategaeth ystâd ehangach, mae Prifysgol Bangor ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau uchelgeisiol i adfywio ei gyfleusterau addysgu gwyddoniaeth ac ymchwil ar hyd Ffordd Deiniol. Bydd y datblygiad gwerth oddeutu £60m yn galluogi i'r Brifysgol gydleoli nifer o'r gweithgareddau hyn ar un safle, lle bydd cyfleusterau addysgu

amlddisgyblaethol newydd ar gael. Maes o law, bydd hyn yn symud Peirianneg Electronig a Chyfrifiadureg o Stryd y Deon i'r Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd cyhoeddiad gan y Brifysgol o fuddsoddiad ac adfywiad mawr yn ei ystâd yn rhoi cyd-destun newydd i ystyried y gwaith, ar dir cyhoeddus ac ar dir y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o greu 'mannau gwyrdd' o fewn ardal y safle gwyddoniaeth, ynghyd â gwelliannau i fynedfeydd o'r orsaf reilffordd, o ran edrychiad ac o ran gosodiad y stryd/dodrefn y stryd. Byddai'n gyfle wedi'i golli pe na fyddai hyn yn cael ystyriaeth fanwl o ran ei effaith ar yr ardal ehangach, ynghyd â defnyddiau posib ar gyfer ardal wag Stryd y Deon.

- **Gerddi'r Beibl**. Mae hwn yn fan pwysig, ond sydd wedi mynd rhywfaint yn angof, mewn ardal gyhoeddus ganolog yn y ddinas. Mae ei leoliad ger y Gadeirlan, cyn Balas yr Esgob yn llety menter Storiel, a llwybrau cerdded pwysig, yn ei wneud yn ardal allweddol i'w ystyried o ran gwaith gwella. Gyda dyluniad a gweithrediad creadigol, gallai cynllun wneud Gerddi'r Beibl mor bwysig a llwyddiannus â Than y Fynwent. Dylid ymgysylltu â'r perchnogion, Esgobaeth Bangor, ynghylch dyfodol y gofod.

- **Ardaloedd Cyhoeddus Eraill.** Mae ardaloedd cyhoeddus eraill; er enghraifft, y Lawnt Fowlio, Palas yr Esgob ac ardal yr Orsaf Heddlu, sy'n bwysig, a fyddai'n elwa ac a fydd o fudd i'r ddinas pe byddent yn cael eu gwella. Fodd bynnag, rhaid i'r brif elfen o ran ystyried gwelliannau tir y cyhoedd fod yn adnoddau a blaenoriaethau. Mae'n annhebygol iawn y bydd, waeth pa mor ddeniadol, rhaglen dinas gyfan o welliannau Tir y Cyhoedd yn cael ei hariannu'n llawn.

  Os enillir adnoddau, mae'n debygol o fod fel rhan o raglen lle mai rhan ohoni'n unig yw'r gwaith ffisegol, ac felly yn realistig, dylid ond mynd ar ôl y blaenoriaethau uchaf, a dylai'r rhain gael eu targedu tuag at y cynlluniau hynny sydd â'r effaith gymdeithasol ac economaidd mwyaf buddiol.

- **Defnyddio Adeiladau**. Mae tanddefnyddio adeiladau, yn arbennig lloriau uwch, yn broblem y mae Bangor yn ei rhannu gyda nifer o drefi a dinasoedd. Byddai mwy o ddefnydd o'r lloriau uchel hyn yn fuddiol i'r adeiladau unigol ac i'r economi cyffredinol.

  Nid yw meintoli hyd a lled tan-ddefnydd lloriau uwch yn dasg hawdd.

Mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd yn bodoli a llawer o ymholiadau wedi'u gwneud i swyddfa'r Prisiwr Dosbarth, a gallant gael eu comisiynu i gwblhau'r gwaith. Efallai mai arolwg tir fesul eiddo fyddai'n rhoi'r canlyniadau gorau gan, ar yr un pryd, adnabod yr adeiladau mwyaf addas a'r perchnogion sydd fwyaf tebygol o fynd ar ôl y mater.

Mae dau brif lwybr i'w dilyn wrth adnabod defnyddiau posib ar gyfer lloriau uwch. Menter breswyl 'byw uwchben y siop' yw un llwybr. Y llwybr arall yw defnyddio lloriau uwch er dibenion busnes/proffesiynol. Mae presenoldeb gwasanaethau masnachol a phroffesiynol o fewn canol y ddinas wedi dirywio'n sylweddol yn ddiweddar, yn rhannol oherwydd diffyg llety addas.

Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymwyd yn gryf bod cyrff cyhoeddus o bob math yn ystyried y fath lety.

Mae buddion economaidd a chymdeithasol y fath gynllun yn amlwg. Byddai defnydd preswyl a masnachol y lloriau uwch nid yn unig yn diogelu adeiladau ac yn cael eu defnyddio'n fwy buddiol, ond byddai hefyd yn cyfrannu at ffabrig cymdeithasol a budd economaidd yr ardal.

- **Polisi.** Mae cefndir polisi yn un maes sydd angen, ac sydd i raddau, derbyn sylw. Mae'n galonogol gweld y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn drafft yn cynnig ymagwedd fwy hyblyg i ddefnydd a chrebachiad y Stryd Fawr.

- **Y Pier**. Cydnabuwyd ers tro bod y Pier yn adnodd pwysig i Fangor, ond nad yw o bosib yn cael yr effaith economaidd y gallai ei gael. Mae ei leoliad daearyddol yn amlwg, ond gellir gwella ei atyniad, ac felly ei gyfraniad at weddill y Ddinas, mewn nifer o ffyrdd.

  Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Dinas, yn ogystal ag edrych ar gyfanrwydd strwythurol y Pier a rhaglenni gwaith symbylol i gyfarch y rhain, yn archwilio nifer o gynigion, yn fychan yn unigol ond yn bwysig yn gronnol, i wella atyniad y Pier.

  Gan fod y strwythur yn adeilad rhestredig Gradd II*, mae'r rhain wedi cael eu trafod gydag awdurdodau o safbwynt treftadaeth, a chânt eu trafod ymhellach yn y Cyngor Dinas cyn gwneud penderfyniadau.

- **Parc Bryn Cegin**. Cafodd Bryn Cegin ei adnabod a'i ddatblygu fel safle cyflogaeth mawr o ansawdd uchel ar gyfer Bangor a'r ardal ehangach yn y 1990au hwyr ymlaen, i ddechrau gan Awdurdod Datblygu Cymru ac wedyn gan Lywodraeth Cymru. Cododd o'r angen am ardaloedd cyflogaeth o safon uchel, o ganlyniad i'r diffyg lle ym Mharc Menai.

  Mae datblygiad ar y safle wedi bod yn siomedig o araf, ac nid oes unrhyw breswylwyr ar hyn o bryd. Erbyn hyn, mae rhan o'r safle wedi'i glustnodi er dibenion hamdden ac mae bidiwr ffafredig wedi cael ei ddewis gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r safle fel '...parc hamdden teulu pwrpasol i roi safbwynt lleol a thwristiaeth i Ogledd-Orllewin Cymru.' Ar hyn o bryd, mae'r cwmni a Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau contract, a bydd terfynu a gwerthiant yn dibynnu ar sicrhau Caniatâd Cynllunio.

  Mae gan leoliad sydd ar gyrion y dref oblygiadau ar gyfer craidd y ddinas, ac mae risgiau'n gysylltiedig o ran cystadleuaeth a thynnu gweithgarwch o du allan i'r canol. Fodd bynnag, efallai y byddai'r cymysgedd o ddefnyddiau a gynigir ynghyd â chreu diddordeb hamdden ar gyrion dinas, ynghyd â'r symbyliad y gallai ei ddarparu ar gyfer datblygiad pellach ym Mharc Bryn Cegin, yn dderbyniol.

### 7.2.4. Cynllun Gweithredu

Mae Briff Strategaeth Datblygu Bangor yn nodi mai trydydd cam y comisiwn fydd ffurfio Cynllun Gweithredu, *'...ar gyfer strategaeth gyffredinol a themâu penodol.'*

Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu, mewn perthynas â thema benodol Datblygu a'r Amgylchedd, yn bwysig iawn i'w lwyddiant.

Yn amlwg, mae cyllid yn hanfodol. Mae'n debygol y byddai'r ffrydiau arian y ceisir amdanynt yn cwmpasu mwy na gwaith ffisegol, ond y byddai'r gwaith ffisegol yn elfen bwysig a gweledol iawn. Bydd yn rhaid i'r gwaith hwn gael ei flaenoriaethu er mwyn cael yr effaith fwyaf.

Dylid mynd ar ôl y themâu a ganlyn yn y Cynllun Gweithredu:

7.2.4.1. **Mynd i'r afael â'r mater o ffabrig adeiladau gwael o fewn yr ardal manwerthu** - mae'n cyfleu delwedd wael ac mae'n rhwystr i fuddsoddiad.

Dylai'r gwaith hwn fod â dwy ran iddo. I ddechrau, parhad ac estyniad posib y Cynllun Paentio presennol i fynd i'r afael â'r edrychiad allanol. Er ei fod yn 'gosmetig', gall y fath gynlluniau gael effaith nodedig ar ardal.

Yn ail, cyflwyno cynllun i fynd i'r afael â phroblemau mwy sylfaenol gyda ffabrig adeiladau. Waeth bynnag y mecanwaith a ddefnyddir i gyflwyno hyn, mae'n hanfodol ar gyfer ffyniant y ddinas yn y dyfodol bod cymorth yn cael ei ddarparu.

Yn dibynnu ar lefel y cyllid, gellir canolbwyntio neu wasgaru'r cynlluniau hyn yn ehangach i gael effaith.

7.2.4.2. **Gwaith Tir y Cyhoedd.** Dylid canolbwyntio a blaenoriaethu'r rhain i wneud y mwyaf o'r hyn sy'n debygol o fod yn adnoddau prin. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd lle gellir cael yr effaith fwyaf, a lle gellir cefnogi a gwella buddsoddiadau eraill.

Yr ymgeiswyr tebygol yw'r Orsaf Reilffordd, Ffordd Deiniol, a Gerddi'r Beibl.

Mae gwelliannau i'r Pier yn brosiectau pwysig eu hunain ac, er eu bod o bosib yn annibynnol, dylid eu gweld fel elfen bwysig o waith Tir y Cyhoedd.

7.2.4.3. **Gwell defnydd o Loriau Uwch**, yn enwedig o fewn yr ardal manwerthu craidd. Heb os nac oni bai, byddai mwy o ddefnydd o loriau uwch ar gyfer defnyddiau preswyl, proffesiynol neu fasnachol arall o fudd mawr i Fangor ar nifer o lefelau. Mae gwell hyblygrwydd yn bwysig, ac mae'r posibilrwydd o weithio gyda sefydliadau preifat a thrydydd sector yn ffactor pwysig er mwyn i hwn ddwyn ffrwyth. Byddai'r fath gynllun yn llunio rhan werthfawr o'r Cynllun Gweithredu.

7.2.4.4. **Yr Ardal Ddiwylliannol a'r Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg.** Erbyn hyn, bydd datblygiad yr Ardal Ddiwylliannol yn cyd-fynd ag ailddatblygu Campws y Brifysgol ar Ffordd Deiniol a'i drawsffurfio'n Ardal Wyddoniaeth a Thechnoleg. Mae Pontio, gyda'i arloesedd deuol a'i ffocws ar y celfyddydau, yn gyswllt ffisegol a throsiadol rhwng y ddwy ardal hyn, gan gyfuno'r ddau yn naturiol ffisegol.

Mae cynlluniau cychwynnol i ddarparu gwelliannau drwy ddehongliad, arwyddion a chysylltiadau ffisegol wedi cael eu trafod ar gyfer yr Ardal Ddiwylliannol. Mae angen i arbenigedd Deongliadol a Dylunio Trefol nawr ddarparu naws am le a fydd yn trawsffurfio syniad yn realiti.

Yn yr un modd, bydd trawsffurfio safle Ffordd Deiniol yn cynnig y cyfle i gael amgylchedd mwy 'croesawgar' sy'n gyfeillgar i gerddwyr, ac os yw'n cyd-fynd â datrysiadau amgylcheddol a deongliadol priodol ar rannau cyferbyniol o'r ffordd, yn cynnig cyswllt mwy cydlynol a chroesawus rhwng yr Orsaf Reilffordd a Chanol y Ddinas.

7.2.4.5. **Ardal Ychwanegol.** Byddem yn cynnig dynodiad meddal o ardaloedd eraill y ddinas i roi'r ddinas mewn 'parthau' pellach. Yn benodol, byddem yn awgrymu bod y Stryd Fawr, o'r Gadeirlan hyd at Sgwâr Kyffin, yn canolbwyntio ar ddiwylliant caffis a siopau crefft/arbenigol (Yr Ardal Grefft). Byddai'r ardal rhwng y Gadeirlan i lawr at y Cloc a'i amgylchedd cyfagos yn canolbwyntio ar siopau manwerthu prif lif (Ardal Fanwerthu/Canol Bangor). Ymhellach i lawr, byddwn yn cynnig annog busnesau proffesiynol a chelfyddydol/diwylliannol (yn enwedig uwchben siopau), gan greu ardal Fusnes/Broffesiynol.

## 7.3. Yr Economi a Hyrwyddo

### 7.3.1. Cynnig Canol y Ddinas.

Mae gan ganolfan fasnachol ac amgylchedd ehangach Bangor nifer o elfennau cadarnhaol ac mae wedi'i leoli'n dda i ddatblygu ei asedau a'i rinweddau wrth symud ymlaen.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Clwstwr o adeiladau a lleoliadau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hanesyddol arwyddocaol, gan gynnwys y Gadeirlan, Gerddi'r Beibl, Sgwâr Kyffin, Campws y Brifysgol, Palas yr Esgob, y Pier, Gwersyll Rhufeinig a Thŵr y Cloc.

- Pontio. Heb os nac oni bai, mae'r datblygiad blaenllaw hwn yn hanfodol i ffyniant y Ddinas yn y dyfodol. Mae mwy o ymwelwyr yn cefnogi canol masnachol y Ddinas, ac yn codi proffil Bangor yn academaidd, yn ddiwylliannol ac yn fasnachol.

- Storiel. Wedi'i leoli yng nghyn Blas yr Esgob, eto bydd hyn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac mae eisoes wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr yn arwyddocaol ers iddo agor, gan godi proffil ac atgyfnerthu treftadaeth hanesyddol a diwylliannol Bangor.

- Datblygu "Ardal Diwylliannol" i ddod â'r adrannau uchod at ei gilydd i greu gwell naws am le a gwerthfawrogid mwy holistaidd o dreftadaeth diwylliannol, hanesyddol ac artistig, a chynnig cyfredol y Ddinas.

- Y Ganolfan Isranbarthol gydnabyddedig ar gyfer Gwynedd a Môn, ac adlewyrchir hyn yn ei swyddogaeth fel y prif ganolfan fanwerthu ar gyfer ardal y ddau Awdurdod Lleol.

- Prifysgol ag enw da ac arbenigedd academaidd byd-enwog.

- Presenoldeb Addysg Bellach arwyddocaol ar y cyrion yng Ngholeg Menai (rhan o Grŵp Llandrillo Menai - y Coleg Addysg Bellach mwyaf yng Nghymru).

- Poblogaeth myfyrwyr ac academaidd sylweddol. Gyda dros 10000 o fyfyrwyr yn y Brifysgol, mae'n helpu i greu synnwyr o fywiogrwydd (ar achlysuron) ac yn helpu i gynnal a datblygu cynnig amryfal canol y ddinas.

- Y Farchnad - Mae cyflwyno Marchnad ar ddydd Gwener wedi gwella ymdeimlad Canol y Ddinas o 'fynd a dod' ac mae wedi helpu i wella ffyniant y Stryd Fawr a Ffordd Garth, yn ogystal â Chanolfan Deiniol.

- Llety Myfyrwyr. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu newid arwyddocaol yng nghynnig y llety i fyfyrwyr ym Mangor, ac mae nifer o ddatblygiadau a ddechreuwyd gan y Sector Preifat ac a arweiniwyd gan y Brifysgol wedi newid ansawdd a deinameg y rhan allweddol hon o berfformiad y Ddinas. Mae hefyd wedi cynorthwyo i wella amgylchedd adeiladau allweddol. Bydd dod â mwy o fyfyrwyr i mewn i'r ddinas ei hun hefyd, os caiff ei reoli'n iawn, o gymorth i gynyddu nifer yr ymwelwyr a chefnogi economi gyda'r nos.

### 7.3.2. **Masnach**.

Dangosodd dadansoddiad o fusnesau yng Nghanol y Ddinas, gan gynnwys tenantiaid yng Nghanolfannau Deiniol a Menai, yr hyn a ganlyn:

*Tabl 5 - Dadansoddiad o'r Busnesau yng Nghanol y Ddinas*




*Ffynhonnell - Trethi Busnes Cyngor Gwynedd*

Yn ôl y disgwyl, mae'r proffil yn dangos bod Canol y Ddinas yn cael ei llywodraethu gan siopau; er nad yw'n adlewyrchu dadansoddiad o'r math o siop. Mae hefyd yn dangos nifer gymharol fechan o fwytai a chaffis (ac yn cynnwys mwy nag un megis Costa Coffee a Nero). Yn wir, mae mwy o salonau harddwch a gwallt yng Nghanol y Ddinas na sydd o lefydd i gael rhywbeth i'w fwyta neu'i yfed.

Am Ddinas o'i maint, gyda Phrifysgol sydd â 10,000+ o fyfyrwyr a 2,000 o staff proffesiynol, mae hyn yn sefyll allan yn arbennig. Yn ychwanegol, dim ond tua 12 tafarn sydd, gyda dim ond ychydig sydd y math sy'n annog ymweliadau y tu allan i'r dref.

Mae nifer y swyddfeydd, gweithdai a warws hefyd rywfaint yn gyfyngedig (fel y disgwylir), er efallai ei fod yn uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae hefyd yn dangos bod potensial sylweddol i gynyddu'r maes gweithgaredd hwn.

Yn fwyaf nodedig, nid oes gan Canol y Ddinas ei hun unrhyw Westai. Er bod yr ardal masnachol ehangach yn cynnwys pump, gyda thri nodedig arall yn y cyffiniau.

Er gwaethaf colli ambell fanwerthwr allweddol, dylid pwysleisio hefyd bod Canol y Ddinas wedi cadw nifer o siopau mawr adnabyddus y Stryd Fawr, yn cynnwys Debenhams, Marks and Spencer, River Island a Boots. Yn wir, dyma'r

prif gyrchfan manwerthu ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, er bod llawer o'r gweithgarwch hwn yn cael ei symbylu gan y cynnig sydd ar Ffordd Caernarfon.

Mae hefyd dwy ganolfan siopa sydd gwerth eu nodi, sef Canolfan Menai a Chanolfan Deiniol, a rhyngddynt, maent yn lletya cyfran sylweddol o'r siopau mwyaf nodedig.

Mae hefyd nifer fechan o siopau arbenigol, a pe byddent mewn clwstwr gyda'i gilydd, gallant o bosib gynnig profiad siopa gwahanol. Fodd bynnag, fel mae pethau ar hyn o bryd, mae'r siopau hyn yn dueddol o fod wedi'u gwasgaru ar hyd y Stryd Fawr gyfan.

Fodd bynnag, wrth adlewyrchu ar ffabrig dirywiol yr adeiladau eu hunain, mae nifer o'r siopau yn ei chael yn anodd ymdopi'n fasnachol, ac mae pryderon am fywiogrwydd hirdymor y ganolfan fanwerthu, a'r cyrion yn fwyaf penodol, ond nid yn llwyr.

### 7.3.3. Elfennau Negyddol.

Mae nifer o faterion allweddol sy'n gorchfygu tyfiant y craidd manwerthu:

- Fel y nodwyd yn gynharach, ac fel y sonnir amdano'n aml, mae'r Stryd Fawr yn eithriadol o hir, yn droellog a heb synnwyr iawn o le (ar hyn o bryd).

- Cystadleuaeth gan Ffordd Caernarfon. Yn hytrach na darparu magned i'r Ddinas, mae'n bennaf yn denu siopwyr i'r cyffiniau. Yn wir, mae'r tagfeydd traffig sy'n cael eu hachosi gan siopwyr Ffordd Caernarfon, yn enwedig yn ystod y penwythnos, yn cyflwyno rhwystr i'r rheini sy'n dymuno ymweld â'r Canol ei hun.

- Mae Trethi Busnes yn parhau i gael eu gweld fel rhwystr. Gwerth trethadwy cyfartalog eiddo masnachol yng Nghanol y Ddinas (y Stryd Fawr, Kyffin, Canolfannau Menai a Deiniol) oedd £33,715[3] yn 2014/16, er mae hyn yn gostwng yn sylweddol i £21,815 pan fo'r ddwy brif Ganolfan yn cael eu tynnu allan o'r hafaliad.

  Fodd bynnag, wrth ystyried mai £36k oedd gwerth trethadwy domestig cyfartalog Gorllewin Swydd Gaer a Chaer ar gyfer yr un flwyddyn, yna mae'r ffigwr uwch yn ymddangos yn 'uchel'. £22k oedd cyfartaledd Cymru ar gyfer 2014/15, gyda ffigyrau Gwynedd

3 Ffynhonnell - Ffigyrau Eiddo Cyngor Gwynedd ar gyfer Bangor 2014/15.

ac Ynys Môn ar y cyfan yn dod i gyfartaledd o £14k.4[4]

- Diffyg croeso a naws am le. Nid yw'r ffyrdd prifwythiennol i Fangor, o Ffordd Caernarfon, Ffordd Caergybi a'r A5 fel y mae'n dynesu heibio Maesgeirchen ac i mewn i Hirael, yn cynnig llawer o ran arwyddion croeso, a gwelliannau amgylcheddol. Yn wir, mae gan y ddynesfa i'r Ddinas o Ffordd Caernarfon, tuag at bont y Rheilffordd, synnwyr o 'ddigalondid' a rhagargoel ar hyn o bryd.

  Nid yw'r diffyg croeso, dehongliad ac arwyddion hyn yn gyfyngedig i'r prif ffyrdd. Ceir problem debyg wrth ddod oddi ar drên yn yr orsaf. Does dim llawer o gwbl i'ch hysbysu eich bod yn cyrraedd Dinas gyda Phrifysgol sy'n adnabyddus yn fyd-eang, gyda Sylfaen Cadeirlan hynaf y DU, un o Bierau Fictoraidd gorau Cymru, un o'r clybiau pêl-droed heb fod mewn cynghrair mwyaf llwyddiannus erioed, llu o siopau, yn ogystal â Phontio a Storiel.

  Yn fwy cyffredinol, mae consensws bod gan Fangor ddiffyg strategaeth am arwyddion a dehongliad. Nid yw'r hyn sydd ym Mangor yn ysbrydoledig. Yn wir, mae'n fympwyol ac yn anghyson.

- Mae prinder atyniadau i'r teulu. Er bod Pontio a Storiel wedi dechrau mynd i'r afael â hyn, ac mae'r Pier yn cynnig rhyw fath o brofiad hamdden, nid oes llawer o ddim arwyddocaol.

- Ambell ddigwyddiad mawr arwyddocaol sy'n dod â phobl i mewn o'r tu allan i'r Ddinas ei hun.

- Dim digon o siopai Stryd Fawr o ansawdd. Er bod nifer fechan (fel y nodwyd uchod), nid oes digon i gystadlu gydag atyniad prif ganolfannau eraill, Llandudno yn fwyaf penodol.

- Absenoldeb y sector proffesiynol**.** Mae ymgynghori ac ymchwil dros y 12 mis diwethaf wedi awgrymu bod dirywiad parhaus yn y sector proffesiynol, a bod Parc Menai yn benodol wedi tynnu'r sector hwn o'r gymuned fusnes allan o ganol Bangor.

  Mae ein dadansoddiad ein hunain o'r sefyllfa, ar sail ymweliadau safle a dadansoddi data Awdurdod Lleol ar drethi busnes yn y Ddinas wedi cadarnhau'r sefyllfa hon. Cymaint â dim arall, mae gan hyn effaith arwyddocaol ar berfformiad y ganolfan fanwerthu. Yn ystod amser cinio, mae'r rhan fwyaf o drefi a dinasoedd yn elwa o "economi brechdan a salad" y sector proffesiynol, ac mae'n amlwg bod nifer yr ymwelwyr yn cynyddu yn ystod yr amser brig.

4 Ffynhonnell – Llywodraeth y DU, Ystadegau Swyddogol - Treth Annomestig: Stoc eiddo Gorffennaf 2015

Byddai ymweliad i ganol Bangor ar amser cinio yng nghanol yr wythnos yn dangos darlun hollol wahanol. Heb os nac oni bai, mae absenoldeb y sector hwn, gyda chyfartaledd yr incwm sydd ar gael yn nodweddiadol uwch, yn cael effaith ar ffyniant Canol y Ddinas.

- Absenoldeb economi gyda'r nos. Crybwyllwyd hyn yn gyson. Er bod nifer fechan o farrau a chlybiau ar agor, mae'r cynnig yn "gyfyngedig" ac nid yw'r Canol yn cael ei nodi fel cyrchfan gyda'r nos. Yn wir, soniodd rhai yr ystyrir rhai mannau o Ganol y Ddinas i fod yn ardaloedd "no-go" gyda'r nos.

- Parcio. Yn syml, mae nifer o'r ymgynghoreion yn teimlo nad oes digon o lefydd parcio, eu bod yn ddrud ac yn anodd eu cyrraedd a'u llywio. Fodd bynnag, dywedodd un ymgynghorai ei fod yn teimlo y gallai hyn fod yn ganfyddiad yn hytrach na realiti.

- Llety Myfyrwyr. Er bod dimensiynau cadarnhaol arwyddocaol, mynegwyd pryderon y gallai hefyd yn anfwriadol 'getoeiddio' ardaloedd drwy symud myfyrwyr o'r stoc dai gyfredol, a dirywiad canran arwyddocaol o'r stoc honno i fod yn Dai Amlfeddiannaeth. Bydd hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol y Ddinas, a gellir dadlau ei fod hefyd yn lleihau'r gwariant y pen yng nghanol Bangor.

### 7.3.4. Y Datrysiadau

I wneud y mwyaf o gryfderau Bangor, a chael gwared ar unrhyw fylchau yng nghynnig y Ddinas, bydd angen rhaglen integredig o gefnogaeth. Mae'r datrysiadau amgylcheddol a ffisegol eisoes wedi cael eu trafod uchod. Yma, amlinellir y datrysiadau ar gyfer busnesau a masnach, wedi'u pecynnu i mewn i raglenni o gefnogaeth ar wahân ond cydgysylltiedig.

Cydnabyddir bod poblogaeth fusnes ehangach yn ac o gwmpas y Ddinas, yn enwedig ar Ystâd Ddiwydiannol Llandygái ar yr A5, Parc Menai ar yr A55/trafford Gogledd Cymru i orllewin Bangor, ac yn ac o gwmpas Ffordd Caernarfon.

Fodd bynnag, er dibenion y strategaeth hon, rhaid blaenoriaethu a chanolbwyntio ar y busnesau sydd yng nghanol Bangor; y siopau, y tafarndai, y bwytai a'r swyddfeydd sy'n darparu'r bywiogrwydd masnachol sy'n cadw canol Bangor i fynd.

Mae'r dull a gynigir yn cwmpasu:

- Cefnogi Busnes
- Marchnata, Hyrwyddo a Digwyddiadau

7.3.4.1. **Cefnogi Busnes**

Dylai'r strategaeth a'r weledigaeth ddarparu'r gefnogaeth briodol i boblogaeth busnes Canol y Ddinas. Argymhellir fod y Bartneriaeth yn dod at ei gilydd, gan dynnu darparwyr cefnogi busnes ac asiantaethau allanol eraill fel y bo'n berthnasol, i ddatblygu pecyn pwrpasol o gefnogaeth ar gyfer y Ddinas.

Dylai'r gefnogaeth hon ganolbwyntio ar alluogi busnesau i elwa o'r cyfleoedd, boed yn rhai cyfredol neu'n rhai yn y dyfodol, a helpu i'w cefnogi i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau cyfredol o fewn y busnesau eu hunain, a goresgyn unrhyw rwystrau allanol sydd ar hyn o bryd yn eu hatal rhag ffynnu a thyfu.

Dylai hefyd annog a hyrwyddo datblygu busnesau newydd yng Nghanol y Ddinas, gan greu'r amgylchedd iawn i fentrau a chlystyrau newydd ffurfio a thyfu, yn arbennig lle mae bylchau ar hyn o bryd, e.e. yn y sector proffesiynol.

Yn bennaf, dylai'r gwaith gael ei yrru drwy'r Ardal Gwella Busnes (BID), ei Fwrdd a'i Swyddog.

Cynigir y pecyn a ganlyn fel ystyriaeth ddechreuol i'r Bartneriaeth:

- Menter Uwchben Siopau
- Clwstwr Datblygu a Sector Proffesiynol
- Cronfa Fuddsoddi Bangor
- Gwasanaeth Ymgynghorol Manwerthu
- Grant Rhyddhad Trethi
- Ymgysylltu â Busnesau a Chefnogaeth BID

**Menter Uwchben Siopau**

Mae gan y Fenter Uwchben Siopau dri bwriad cydgysylltiedig:

- Cynyddu presenoldeb y sector Proffesiynol a sectorau busnes eraill ar y Stryd Fawr gan felly gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant.
- Cefnogi busnesau cyfredol drwy greu incwm rhent ychwanegol
- Ffurfio cysylltiadau mwy sylweddol gyda'r Brifysgol a Choleg Menai i annog mwy o wasanaethau a gweithgarwch menter o fewn Canol y Ddinas ei hun.

Bydd y Rhaglen yn cynnwys adnabod lleoliadau posib i ddatblygu a lletya busnesau newydd ar hyd y Stryd Fawr a thu hwnt, gan weithio

gyda gweithredwyr posib megis Tŷ Gwydr yn lleol, a sefydliadau cenedlaethol megis Indycube, a darparu cefnogaeth ysgogol drwy becynnau cyflenwol megis Cronfa Fuddsoddi Bangor.

**Clwstwr Datblygu Proffesiynol**

Cynigir hyn fel ychwanegiad posib i'r Ardal Gwella Busnes cyfredol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Datblygu a chefnogi'r sector proffesiynol cyfredol
- Annog busnesau posib eraill yn y sector proffesiynol i sefydlu, tyfu neu adleoli.
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer y clwstwr er mwyn cynnig llais pendant ond cydlynol.

Bydd angen adnoddau ychwanegol i'r rheini sydd ar gael ar hyn o bryd i'r BID, ond cynigir bod y gweithgarwch hwn yn dod yn rhan o'r pecyn cefnogaeth a gydlynir drwy'r Ardal Gwella Busnes.

**Cronfa Fuddsoddi Bangor**

Wedi'i seilio'n rhannol ar y Gronfa Fuddsoddi Leol flaenorol, a gan ddefnyddio arfer gorau o'r gronfa sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd yng Nghaergybi, bydd Cronfa Fuddsoddi Bangor yn cefnogi ac yn annog buddsoddiad gan y Sector Preifat yng Nghanol y Ddinas.

Argymhellir cytuno ar ardal ddynodedig benodol, efallai'n ehangach nag ardal y BID ond o fewn cyfyngiadau'r Ddinas ei hun.

Dyma fydd y meini prawf allweddol:

- Cefnogi twf ac ehangiad busnesau (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, sectorau twf uchel), gan ddarparu pecyn cefnogaeth ariannol ddiamod ar gyfer busnesau newydd a chyfredol ym Mangor.

- Bydd y Cynllun yn cynnig cyllid hyd at 50% i gynorthwyo gyda gwariant cyfalaf cymwys ar brosiectau busnes, a chynigir gwobrwyon o rhwng £1,000 (lleiafswm) a £50,000 (mwyafswm).

- Bydd angen i geisiadau dros £10,000 ddangos bod tystiolaeth glir y bydd swyddi'n cael eu creu, ac y bydd twf o fewn y prosiect.

- Bydd manwerthu yn sector cymwys, ond rhaid i ymgeiswyr hefyd ymgymryd ag Adolygiad Manwerthu (gweler isod

hefyd).

- Gosodir isafswm cost eitemau cymwys ar £100.

- Cynigir bod y cynllun, os y caiff ei ariannu, yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd drwy ei Uned Cefnogi Busnes.

**Gwasanaeth Ymgynghorol Manwerthu**

Cynigir bod y Bartneriaeth yn adfer y cynllun a oedd yn cael ei weinyddu'n flaenorol gan Gyngor Gwynedd. Roedd y cynllun blaenorol yn llwyddiannus, ond cafodd ei dynnu'n ôl oherwydd cyfyngiadau gyda'r gyllideb.

Roedd y cynllun yn rhan o'r pecyn prosiect a ddatblygwyd gan Wynedd, a chafodd ei adnabod fel blaenoriaeth o dan Gynllun Gweithredu Ymateb i'r Dirwasgiad y Cyngor.

Roedd y prosiect yn cynnig cyngor ar ffurf adolygiad diagnostig, gan amlygu newidiadau, gwelliannau a chyfleoedd yn y farchnad.

Cynigir bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig, gan weithredu ar yr un sail ddaearyddol â Chronfa Fuddsoddi Bangor. Dyma fydd y meini prawf allweddol:

- Bydd y cynllun yn cynorthwyo manwerthwyr newydd neu gyfredol o fewn yr ardal ddynodedig.

- Bydd y gwasanaeth yn golygu hyd at un diwrnod o gefnogaeth yn rhad ac am ddim i'r manwerthwr.

- Bydd angen i bob manwerthwr sy'n gofyn am gefnogaeth grant drwy Gronfa Fuddsoddi Bangor ymgymryd ag adolygiad cyn cyflwyno'r cais grant.

- Cynigir bod y cynllun, os caiff ei ariannu, yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd drwy ei Uned Cefnogi Busnes.

**Grant Rhyddhad Trethi**

Dylid hefyd ystyried cefnogaeth trethi. Er bod lefel y cyfraddau wedi'u cyfyngu gan reolau cenedlaethol, ac nad yw'r adran gyfraddau yng Nghyngor Gwynedd yn gallu darparu cefnogaeth y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ganiatáu o dan ganllawiau cyfredol, dylid ystyried cynllun cefnogaeth grant sy'n canolbwyntio ar fusnesau newydd sy'n cael eu sefydlu yng Nghanol y Ddinas, ac ystyrir bod hyn yn briodol oherwydd cyd-destun a pherfformiad cyfredol Canol y Ddinas.

Gallai'r meini prawf allweddol gynnwys:

- Busnesau newydd yn cael eu sefydlu o fewn yr ardal ddynodedig (ar draws pob sector cymwys)
- Busnesau cyfredol yn adleoli i Ganol y Ddinas, neu fusnesau o fewn yr ardal ddynodedig yn symud i eiddo mwy (lle mae cynnydd yn y dreth fusnes 100% yn fwy)
- Busnesau sy'n dioddef o amhariad hirdymor o ganlyniad i waith yn ymwneud ag adfywio neu ddatblygiad arall yng Nghanol y Ddinas, e.e. gwaith stryd sy'n atal pobl rhag ymweld.
- Bydd cefnogaeth hyd at uchafswm o gyfanswm y cyfraddau a delir gan y busnesau dros unrhyw gyfnod 12 mis (hyd at uchafswm o 12 mis).
- Cynigir bod y cynllun, os caiff ei ariannu, yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd drwy ei Uned Cefnogi Busnes.

**Ymgysylltu â Busnesau a Chefnogaeth BID**

Mae sefydlu Ardal Gwella Busnes ym Mangor yn cynnig llais clir a phendant ar gyfer y Sector Preifat ym Mangor. Bydd yr ardoll a weithredir ar draws y gymuned fusnes yn darparu cerbyd sefydlog, tymor canolig, a fydd yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi’r Bartneriaeth.

Mae rhaglen o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y BID, a chyflogir Cydlynydd rhan-amser hefyd drwy'r sefydliad (sydd erbyn hyn wedi'i sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant).

Wrth i'r Strategaeth a'r Weledigaeth godi momentwm a throsi i Raglen Strategol o Adfywio, bydd yr angen ar gyfer y BID a llais y sector yn tyfu. Mewn egwyddor, bydd twf ym mhresenoldeb a chryfder y sector yn cynyddu gallu cyllideb y BID.  Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg yn y tymor byr i ganolig y bydd angen adnoddau ychwanegol i alluogi iddo ychwanegu gwerth i'w weithgareddau craidd, ac yn bwysicaf oll, galluogi iddo adeiladu capasiti o fewn ei strwythur staffio.

Bydd angen cael swyddog llawn amser os bydd rhaglen adfywio llawn yn cael ei gweithredu; gan felly sicrhau bod y gymuned fusnes yn gyfranogwr a buddiolwr llawn y Rhaglen.

Felly, argymhellir bod darpariaeth yn cael ei rhoi o fewn y Rhaglen i gefnogi twf a chynaliadwyedd y BID. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar gyfer gweithgareddau craidd sydd eisoes wedi cael eu hadnabod, ond yn hytrach, gweithgareddau gwerth ychwanegol sy'n gwella proffil Bangor, ei edrychiad a'i pherfformiad.

7.3.4.2. **Marchnata a Hyrwyddo**

Fel y pwysleisiwyd yn gynharach, mae ymdrechion cyfredol i hyrwyddo a marchnata yn y Ddinas yn gyfyngedig.

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â llawer iawn o farchnata er ei dibenion ei hun, ac felly'n dyrchafu rhinweddau'r Ddinas, ac yn defnyddio llawer o arbenigedd ac adnoddau i godi proffil y Ddinas yn y modd hwn.

Mae Cyngor y Ddinas hefyd wedi ymgymryd â rhywfaint o waith yn y maes hwn, ac mae ymdrech barhaus i ymgymryd â marchnata a hyrwyddo, er ei fod o fewn capasiti cyllideb gyfyngedig.

Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod angen ailfeddwl yn ddifrifol sut mae'r Ddinas yn cael ei brandio a'i hyrwyddo, a bod angen ymdrech cydlynol ar y cyd er mwyn codi proffil Bangor a dod â buddsoddiad a busnes i mewn.

Yn ddiweddar, mae Bangor wedi cael ei hyrwyddo fel Dinas Dysg, ac mae gan hyn rywfaint o deilyngdod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn llwyr adlewyrchu'r cyfan sydd ganddi i'w chynnig, ac mae rhai'n teimlo bod rhywfaint o 'ddetholursrwydd' am y brand.

Mae buddsoddiadau arwyddocaol yn y "Llinell amser" ar y Stryd Fawr a gwelliannau amgylcheddol eraill, Pontio, Storiel a'r cynigion ar gyfer y Pier yn amlwg wedi cynnig dimensiwn newydd i Fangor, gan o bosib wneud y Ddinas yn fwy apelgar i gynulleidfa ehangach o gwsmeriaid; yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Bydd buddsoddiad mewn isadeiledd a busnes, ac ad-alinio cynnig y Ddinas, angen cyd-fynd â buddsoddiad mewn brandio a hyrwyddo.

Drwy ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol, bu llawer iawn o drafodaethau am yr hyn y dylai'r brand fod, a pha fecanweithiau sydd eu hangen i gyfleu'r neges yn effeithiol i'r amryfal farchnadleoedd.

Fodd bynnag, argymhellwn mai un o'r buddsoddiadau cyntaf sydd eu hangen gan y Bartneriaeth yw comisiynu arbenigedd priodol i ddatblygu brand sylweddol ac ystyrlon y mae pawb yn prynu i mewn iddo, ac yna

bod y Bartneriaeth yn ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn gyson.

Cynigir y pecyn a ganlyn fel ystyriaeth ddechreuol i'r Bartneriaeth:

**Brandio**

Bu llawer o drafodaethau ynghylch y mater hwn, ond ar hyn o bryd nid oes consensws amlwg. Mae Cyngor y Ddinas, ar ran y Bartneriaeth, wedi dechrau gwaith yn y maes hwn, ond bydd angen arbenigedd ac adnodd priodol i sicrhau bod buddsoddiad adfywio arwyddocaol yn dod â'r negeseuon marchnata a'r cysyniadau brandio cywir.

Dylai hyn fod yn ymyrraeth gynnar gan y Bartneriaeth, gan weithio ochr yn ochr â'r Brifysgol, Cyngor Gwynedd, Cyngor y Ddinas a'r BID yn arbennig. Fodd bynnag, dylai fod yn broses lefn ac ailadroddol, sy'n rhoi lle am newidiadau a gwelliannau pan fo buddsoddiadau newydd a mwy sylweddol ar y gweill ac yn cael eu cwblhau.

**Marchnata ac Ymgyrchoedd PR**

Mae angen rhywfaint o farchnata yn syth er mwyn denu mwy o ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o gynnig datblygol Bangor. Argymhellir datblygu hyn yn raddol, gyda buddsoddiad priodol mewn arbenigedd marchnata a PR yn digwydd yn gynnar.

Dylid hefyd cynnal adolygiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r ymdrechion hyn yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac yna dylid creu deunydd priodol pan a phryd fo angen.

Mae hefyd angen marchnata a PR 'lleol' i sicrhau bod dinasyddion a budd-ddeiliaid, ynghyd â darpar fuddsoddwyr, yn ymwybodol o'r holl bethau sydd eisoes yn digwydd yn y Ddinas.

**Porth**

Mae'r Bartneriaeth eisoes wedi comisiynu adroddiad ar y dewisiadau ar gyfer Porth Bangor pwrpasol, gan gynnig pwynt mynediad priodol a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata, gwybodaeth a digwyddiadau.

Mae consensws bod hwn yn adnodd sydd wir ei angen, ac eto byddem yn argymell bod hwn yn fuddsoddiad cynnar o fewn y Strategaeth. Yr un fath â'r marchnata a'r brandio, dylai'r buddsoddiad dechreuol fod mewn system sy'n caniatáu ar gyfer twf, ehangu ac amrywiaeth. Wrth i'r Rhaglen fagu momentwm, ac wrth i fywiogrwydd y Ddinas dyfu, bydd yr angen am Borth o'r natur hon hefyd yn cynyddu - o ran

defnydd a dimensiwn.

**Arwyddion a Dehongliadau**

Er bod yr ymyrraeth hon i'w gyfarch yn bennaf o dan Datblygiad a'r Amgylchedd, mae'r brandio, y negeseuon ac adnabod y gynulleidfa darged, h.y. ar gyfer pwy yr ydym yn darparu gwybodaeth, yr hyn yr ydym yn ei ddweud wrthynt ac i ba ddiben, yn amlwg o fewn cylch gorchwyl y thema Economi a Hyrwyddo.

Dylid buddsoddi'n benodol mewn comisiynu deunydd a gwybodaeth ddeongliadol ar gyfer arwyddion cyn gynted ag y bo modd.

**Portffolio Buddsoddi**

Fel yr amlygwyd yn gynharach, mae bylchau penodol yng nghynnig Bangor, a nifer lle gellir eu llenwi gan fuddsoddiad y Sector Preifat yn unig. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o weithgarwch ymysg y sector preifat, mae'r mwyafrif ohonynt yn ddiweddar wedi'u gyrru gan dŷ ar y cyrion a llety myfyrwyr.

Mae diffyg hyder a pharodrwydd i fuddsoddi yng nghanol y Ddinas, ac fel y tystiwyd mewn ardaloedd eraill o adfywio, mae preifat fel arfer yn dilyn cyhoeddus o ran buddsoddiad.

Mae diddordeb calonogol gan y Sector Preifat yn hanfodol, ac argymhellir datblygu Portffolio o Gyfleoedd Buddsoddi, gan gwmpasu safbwynt y safleoedd datblygu, y sector fel y mae'n datblygu a chyfleoedd twf, economi craidd ynghyd â data a sgiliau demograffig a chyflogaeth.

**Y Rhaglen Llysgenhadon**

Mae pwysleisio'r elfennau cadarnhaol yn hanfodol. Mae tueddiad wedi bod i amlygu problemau'r Ddinas, ac anghofio am ei rinweddau arwyddocaol. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae gwahaniaethau, a hynny efallai yn rhannol o ganlyniad i sefydlu'r BID a'r Bartneriaeth Canol Dinas, a gweithrediadau canlyniadol megis y Cynllun Peintio.

Fodd bynnag, mae'r Ddinas angen pencampwyr sy'n gallu gwerthu Bangor ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae angen canu ei chlodydd yn hytrach na galaru ei dirywiad.

Gall Bangor frolio nifer arwyddocaol o gysylltiadau pendant gyda ffigyrau cyhoeddus o bob cefndir.  Mae nifer o bobl lwyddiannus ac adnabyddus wedi cael eu magu, eu haddysgu, wedi gweithio neu wedi cymryd rhan mewn chwaraeon ym Mangor.

Byddai ymdrech i adnabod y bobl hyn a magu cefnogaeth yn eu mysg ar gyfer Rhaglen Llysgenhadon yn hyrwyddo'r Ddinas, a byddai'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r ymdrechion marchnata a hyrwyddo.

Gellid cefnogi hyn drwy adnoddau marchnata, cynadleddau a digwyddiad megis 'Diwrnod Bangor' yn y Senedd (fel Diwrnod Ynys Môn).

**Ecoamgueddfa**

Mae'r prosiect wedi'i fodelu ar y cysyniad ecoamgueddfa, a weithredwyd yn llwyddiannus yn ddiweddar ym Mhen Llŷn, ac a gafodd ei yrru'n rhannol gan Brifysgol Bangor.

Ochr yn ochr â'r Ardal Ddiwylliannol, bydd yn adeiladu ar y partneriaethau sydd erbyn hyn yn cael eu ffurfio, ac yn cwmpasu safleoedd diwylliannol a hanesyddol yn ac o gwmpas Bangor i gynnig profiad mwy deinamig a chynhwysfawr i ymwelwyr.

**Digwyddiadau**

Mae rhaglen ddigwyddiadau'n fuddugoliaeth gynnar ar gyfer y Rhaglen Adfywio. Os yw'n cael ei reoli'n iawn ac yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol, gallant greu synnwyr o fywiogrwydd o fewn cymuned, cynyddu nifer yr ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r Dref neu'r Ddinas.

Ar hyn o bryd, mae ambell ddigwyddiad mawr ym Mangor, yn cynnwys:

- *Christmas Cracker* - BID / Pobl Bangor (Blynyddol)
- Carnifal (Blynyddol) - Pobl Bangor (Blynyddol)
- Gŵyl Wyddoniaeth - Y Brifysgol (Blynyddol)
- Gŵyl Gerddoriaeth - Y Brifysgol (Blynyddol)
- Gŵyl Syrcas - Pontio (Bob dwy flynedd)

Mae Dathliadau'r Nadolig wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol, ac yn 2016 gwnaeth ehangu'n sylweddol a chafodd ei ailenwi yn *Christmas Cracker*. Yn hanesyddol, roedd y digwyddiad yn cael ei drefnu gan Grŵp Cymunedol Pobl Bangor; fodd bynnag, mae'r BID erbyn hyn wedi cytuno i helpu gydag adnoddau ac i reoli'r digwyddiad. Ar hyn o bryd, mae trefniadau tebyg ar gyfer y Carnifal yn y blynyddoedd i ddod yn cael eu trafod.

Cafodd y Gwyliau Gwyddoniaeth a Cherdd dderbyniad da, ond mae eu

heffaith a'u proffil o fewn y Ddinas yn isel. Ac eto, gallai'r ddau fod â chymaint mwy i ychwanegu at y bywiogrwydd a'r naws am le.

Roedd yr Ŵyl Syrcas yn llwyddiannus yn 2015, ac mae'n dychwelyd i'r Ddinas y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, yr Ŵyl oedd y digwyddiad mwyaf toreithiog a drefnwyd gan Bontio. Gobeithir y byddai'r effaith ar y strydoedd ac yn y Ddinas, a welwyd yn 2015, yn cael ei ailadrodd yn 2017.

Mae digwyddiadau eraill, ynghyd â rhaglen, mewn lle yn y Brifysgol a Phontio. Fodd bynnag, gallai maint, proffil a chapasiti'r Ddinas gynnig lle i fwy.

Argymhellir yr hyn a ganlyn:

- Ymgysylltu â threfnwyr yr Ŵyl Wyddoniaeth a Cherdd er mwyn archwilio sut gall y Brifysgol a'r Bartneriaeth gydweithio.
- Os bydd y Carnifal yn parhau, rhaid i drefniadau tebyg i'r rhai sydd mewn lle ar hyn o bryd ar gyfer Dathliadau'r Nadolig gael eu trefnu.
- Mae tîm Pontio wedi ymgysylltu'n llawn i sicrhau bod y Bartneriaeth yn darparu cefnogaeth i'r Ŵyl Syrcas sydd o fudd i'w ddwy ochr

Yn ychwanegol, argymhellir ymgysylltu â Rheolwr Digwyddiadau Gwynedd er mwyn archwilio p'un a oes cyfleoedd eraill i ddod â digwyddiadau priodol eraill, neu ddatblygu digwyddiadau newydd, i'r Ddinas.

Argymhellir y pecynnau cefnogaeth a ganlyn hefyd:

**Cronfa Ddigwyddiadau**

Cronfa Ddigwyddiadau flynyddol y gall digwyddiadau cyfredol a newydd wneud cais amdani drwy'r Bartneriaeth.

Bydd angen i geisiadau ddangos:

- Bwlch Ariannol
- Budd Economaidd a Chymdeithasol i'r Ddinas
- Nid yw'n disodli digwyddiadau cyfredol
- Capasiti Rheoli
- Strategaeth Adael

**Porth Digwyddiadau**

Gweler uchod.

### 7.4. Tai, Iechyd a Llesiant

Mae tai yn fater allweddol i Fangor wrth symud ymlaen.

Fel yr adroddwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae nifer o faterion yn ymwneud â thai a llety o fewn y Ddinas sydd wedi treiddio drwy drafodaethau wrth ffurfio'r strategaeth a'r weledigaeth.

Gellir torri'r rhain i lawr i'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Tai Amlfeddiannaeth
- Swyddogaeth Tai Cymdeithasol
- Effaith Bosib Wylfa

Tai Amlfeddiannaeth Un pryder allweddol a fynegwyd yn ystod y dadansoddiad budd-ddeiliaid dechreuol, ac a ailddatganwyd yn ystod datblygiad y Strategaeth a'r Weledigaeth, oedd dyfodiad nifer o ddatblygiadau llety myfyrwyr newydd ar hyd y Ddinas. Er bod hyn yn dod gyda'i fuddion ei hun, gan fod o gymorth i atgyfnerthu safle'r rhanbarth fel lleoliad allweddol i ddod i aros fel myfyriwr, mae hefyd o bosib yn creu problemau, yn enwedig wrth greu Tai Amlfeddiannaeth a llethu gwariant myfyrwyr ar y Stryd Fawr.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae Bangor yn lletya 88% o'r stoc dai Amlfeddiannaeth "cofrestredig" ar draws y Sir, gyda bron i 1,200 eiddo yn y categori yma. Mae hyn yn cynrychioli 21% o gyfanswm y stoc dai o fewn yr wyth ward yn y Ddinas. Nid yw hyn yn cyfrif am nifer o eiddo eraill sydd dan amheuaeth o fod yn Dai Amlfeddiannaeth ond sydd heb gael eu cofrestru felly eto.

Mae tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Grŵp Gweithredu Nottingham ar Dai Amlfeddiannaeth i Bwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol y Senedd yn 2013[5] yn crynhoi'r materion a'r problemau a allai godi o doreth o Dai Amlfeddiannaeth.

---

5 Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol. Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Grŵp Gweithredu Nottingham ar Dai Amlfeddiannaeth yn 2013

Nododd yr adroddiad hwn bod Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu nodweddu gan:

- lefelau preswylwyr yn llawer uwch nag mewn tai tebyg eraill;
- tenantiaethau byrdymor iawn, ac felly trosiant uchel o breswylwyr;
- diffyg strwythurau rheoli mewnol;
- preswylwyr o gymysgeddau demograffig ac economaidd-gymdeithasol mwy cyfyngedig (e.e. myfyrwyr, 'gweithwyr proffesiynol ifanc', hawlwyr budd-daliadau, gweithwyr mudol, ceiswyr lloches);
- tueddiad o gael crynoadau mewn lleoliadau daearyddol penodol

Yn ôl y cyflwyniad i'r pwyllgor, mae'r problemau a ganlyn yn codi o'r fath amgylchiadau:

*"loss of social capital, fracturing of community cohesion, downgrading or loss of community facilities such as schools, and creation of neighbourhoods where retail activity is seasonal and limited to takeaways, pubs, clubs and letting agents"*

Nodwyd hefyd bod datblygiad y crynoadau o Dai Amlfeddiannaeth yn, *"makes it harder to manage the problems associated with them"*. Mae'r problemau hyn yn cynnwys:

- materion amgylcheddol megis cynlluniau rheoli gwastraff mewnol ac allanol annigonol;
- problemau parcio, a wneir yn waeth mewn nifer o achosion drwy drosi modurdai i ystafelloedd gwely/astudio ychwanegol.
- diraddio'r strydlun wrth i landlordiaid, asiantau, busnesau eraill a thenantiaid osod posteri'n anghyfreithlon ynghyd â deunydd marchnata amlwg
- materion ymddygiadol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol

- mae trosglwyddo cyfran sylweddol o fyfyrwyr i gyfleusterau llety newydd yn gadael gwagle posib, ac mae pryder y byddai'r broblem gyda Thai Amlfeddiannaeth, sydd eisoes yn bodoli, yn cael ei waethygu'n gyffredinol gan y posibilrwydd o gulhau'r gymysgedd ddemograffig a chymdeithasol-economaidd ymhellach.

Swyddogaeth Tai Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae 1,528 o dai sy'n eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol ym Mangor. Mae hyn bron i 50% yn fwy na'r ail nifer uchaf o fewn unrhyw un gymuned (Caernarfon). Ar sail data cyfrifiad 2011, mae hyn yn cynrychioli tua 25% o gyfanswm y stoc dai.

Y ddau brif Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yw Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG), a Tai Gogledd Cymru, ac mae gan Cynefin ymgysylltiad cyfyngedig yn y Ddinas hefyd.

Mae'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi chwarae rhan allweddol, nid yn unig wrth ddarparu tai o safon briodol i gyfran fawr o'r gymuned, ond maent hefyd wedi ychwanegu gwerth drwy ymgysylltu a chyflwyno amrediad o weithgareddau gwerth ychwanegol eraill, yn amrywio o raglenni cadwyn cyflenwi, cefnogaeth grant i grwpiau cymunedol a darpariaeth cyfleusterau gofal ychwanegol sydd wedi rhyddhau tai ychwanegol mewn llefydd eraill.

Fodd bynnag, mae pob un yn cydnabod bod angen parhau i wella'r stoc dai gyfredol a darparu unedau tai newydd lle bo'n briodol.

Mae fforddiadwyedd yn rhywfaint o bryder. Mae Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn 2016 yn dangos bod 67.8% o bobl leol yn ardal ehangach Bangor wedi cael eu prisio allan o'r Farchnad Dai. Yn ogystal, mae gan y Gofrestr Stoc Dai Cyffredin 460 o bobl ar ei restr aros ym mis Tachwedd 2016.

Wrth i'r Strategaeth symud yn ei blaen, dylid hefyd ystyried y posibilrwydd i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymyrryd yn y farchnad dai preifat, ac yn benodol i drosi rhai Tai Amlfeddiannaeth cyfredol i mewn i gartrefi teulu priodol.

Effaith Bosib Wylfa. Cynhaliwyd Asesiad Llety i Weithwyr Adeiladu ar gyfer tir Gwynedd yn ddiweddar, fel rhan o astudiaeth ehangach. Nid yw casgliadau'r adroddiad hwn wedi'u cyhoeddi eto; fodd bynnag, deallwn fod pwysau yn y farchnad dai leol yn debygol o fod yn llai dwys nag ar Ynys Môn, ond efallai y bydd galw gan weithwyr adeiladu dros dro a allai arwain at ragor o bwysau ar y cyflenwad tai yn ystod y cyfnod adeiladu. O ran y Strategaeth a'r Weledigaeth, dylid bod yn ofalus a thalu sylw i sicrhau nad yw'r pwysau'n effeithio ar y rheini sydd fwyaf difreintiedig o'r farchnad dai (lle mae cyfran sylweddol ym Mangor).

I'r gwrthwyneb, efallai bod y galw ychwanegol hwn yn rhoi cyfle i'r Bartneriaeth fynd i'r afael ag ansawdd rhai o'r tai yn y stoc dai breifat ac, yn benodol, trawsffurfio canran o'r Tai Amlfeddiannaeth i ymateb i'r galw byrdymor hwn. Yn y tymor hirach, byddai'r stoc dai hon ar ei newydd wedd yn cynnig stoc newydd o gartrefi teulu.

Yn y byrdymor, bydd angen darn o waith a fydd yn adeiladu ar yr Asesiad ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n benodol i Fangor yn ymwneud â natur ei stoc dai, a'r gofynion ychwanegol ar gyfer gwasanaethau.

O safbwynt Iechyd a Llesiant, fel y nodwyd yn gynharach, mae Bangor yn ddinas â gwahaniaethau mawr, gyda nifer o ardaloedd o ffyniant, yn arbennig tua Phenrhos a Ffordd Caergybi, ond mae ardaloedd eraill o amddifadedd arwyddocaol. Mae dynodiad Maesgeirchen fel ardal Cymunedau'n Gyntaf wedi'i seilio ar Ward Marchog, sydd o fewn y 10% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Fodd bynnag, ceir hefyd pocedi eraill o amddifadedd sy'n dystiolaeth glir o hyn, ond mae cymunedau llai eraill o fewn y Ddinas sydd hefyd yn ei chael yn anodd ymdopi o ran iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, ac ati.

Mae oddeutu 1,300 o gleifion wedi'u cofrestru fesul un Meddyg Teulu yn ardal Bangor. Mae hwn ychydig yn is na Gwynedd, sydd yn 1,400, a Chymru ar 1,600. Ysbyty Gwynedd yw prif ysbyty'r ardal.

Mae gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth ardal Bangor yn gyfyngedig; fodd bynnag, mae cyfrifiad 2011 yn dangos mai 14% oedd y ffigwr ar gyfer pobl sydd â salwch neu anabledd hir dymor sy'n cyfyngu ar fywyd, o'i gymharu â chyfartaledd Gwynedd, sef 20.5%. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn cael ei gamliwio gan nifer sylweddol y myfyrwyr. Mae gan Ward Marchog lefel llawer uwch o 23.5%.

Mae'r prif Brosiectau a gynigir yn cynnwys:

**<u>Tai</u>**

**Cynllun Prynwyr Tro Cyntaf**

Mae'r prosiect hwn yn edrych i wella Cynllun Benthyciad Blaendal Morgais Prynwr Tro Cyntaf Gwynedd, gan wneud mwy o arian ar gael i annog a chefnogi pryniant eiddo gwag ac eiddo sydd angen eu hadnewyddu'n sylweddol.

**Trosi/Adnewyddu Tai Amlfeddiannaeth**

Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar brosiect 'Troi Tai'n Gartrefi' ledled Gwynedd sy'n cynnig benthyciadau tymor byr di-log i berchnogion preifat, ond a fyddai'n ehangu'r cynllun hwn i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd dynodedig ar yr amod bod y Tŷ yn cael ei drosi'n ôl i unedau unigol, h.y. un tŷ neu fflatiau ar wahân. Cronfa Partneriaeth Tai Strategol Bangor.

**Cronfa Partneriaeth Tai Strategol Bangor**

Bydd y Prosiect hwn yn darparu arian ychwanegol i wella Dyraniad Grant Tai

Cymdeithasol. Byddai is-grŵp o'r Bartneriaeth yn cael ei sefydlu a byddai'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael ag amryw ofynion y Ddinas, drwy ymyraethau penodol megis trosi tai cyfredol neu Dai Amlfeddiannaeth sydd wedi mynd yn adfeilion, neu ddatblygu tai fforddiadwy newydd, tai gofal ychwanegol, ac ati.

**Wardeiniaid Ynni**

Byddai'r prosiect yn darparu adnodd i gyflogi warden pwrpasol ar gyfer y Ddinas gyfan, gan ganolbwyntio'n benodol ar y stoc tai cymdeithasol.

**Asesiad Ymateb Wylfa**

Cynhaliwyd Asesiad Llety i Weithwyr Adeiladu ar gyfer tir Gwynedd yn ddiweddar. Byddai'r Prosiect hwn yn edrych i ddatblygu'r Asesiad a chanolbwyntio ar faterion sy'n benodol i Fangor yn ymwneud â natur ei stoc dai, a'r gofynion ychwanegol ar gyfer gwasanaethau.

**<u>Iechyd a Llesiant</u>**

**Hwb Bangor**

Mae'r prosiect hwn yn anelu i efelychu Hwb Hyfforddiant Cymunedol Dinbych a ddatblygwyd gan Cynefin a'i bartneriaid yn Ninbych, ond byddai hefyd yn cwmpasu'r uchelgais o ddod â gwasanaethau Iechyd a Llesiant ynghyd o dan un to. Byddai cyllid dechreuol ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb, gydag arian dilynol posib ar gyfer ceisiadau am astudiaethau technegol neu arian cefnogaeth.

**Bangor; Dinas Gyfranogol Cymru**

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar yr Athroniaeth Gyfranogol sy'n hybu'r syniad bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd yn creu cymdogaethau mwy cyffrous a llefydd mwy dymunol i fyw. Gyda'i gilydd, bydd y nifer o syniadau hyn yn creu llefydd a fydd yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol: yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol.

Cymorth ariannol tuag at ddatblygiad cynllun busnes, cyflogi Swyddog Prosiect a chyllid ar wahân ar gyfer cyllid hadu ar gyfer prosiectau penodol.

**Rhaglen Ymgysylltu Gwyddorau Chwaraeon**

Gan ddefnyddio gallu Prifysgol Bangor yn y maes Gwyddorau Chwaraeon a Seicoleg Chwaraeon, byddai hyn yn edrych i ymgysylltu â chymunedau'r Ddinas i hybu cymunedau egnïol. Byddai cyllid yn cefnogi mentrau peilot gyda charfanau penodol ar draws y Ddinas.

**Swyddi dan Hyfforddiant yn yr Adran Tai**

Bydd y Prosiect hwn yn cyflwyno cynllun peilot sy'n cael ei dreialu gan Gyngor Gwynedd, sy'n adeiladu ar Brosiect Llywodraeth Cymru, gan gynnig profiad gwaith i unigolion sy'n chwilio am waith neu sy'n ddi-waith yn yr hirdymor ac yn chwilio am waith o fewn y meysydd gwella stoc tai / adeiladu / effeithlonrwydd ynni.

**Mwynderau Cyhoeddus a Chyfleusterau Iechyd a Ffitrwydd**

Ymdriniaethau arloesol i ddatblygu parciau a mannau cyhoeddus. Byddai cyllid yn cael ei gyfeirio tuag at greu safleoedd ffitrwydd awyr agored ar draws y Ddinas i hyrwyddo ffitrwydd, iechyd a llesiant. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r Rhaglen Ymgysylltu Gwyddorau Chwaraeon uchod.

# 8. Casgliadau

Ar sail casgliadau'r gwaith hwn, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad sylweddol, gwaith ymchwil maes a desg, mae Cynllun Gweithredu tair-blynedd wedi'i atodi yn Atodiad 1. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar bedwar maes gwaith allweddol; y tair thema Datblygu a'r Amgylchedd; Economi a Hyrwyddo; a Thai, Iechyd a Llesiant; yn ogystal, cyllid ar gyfer Swyddfa Rhaglen i gefnogi ymdrechion y Bartneriaeth.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn dod i gyfanswm o **£9.710m** dros dair blynedd; mae'n canolbwyntio ar brosiectau a fydd yn ychwanegu gwerth ac yn gwella buddsoddiadau eraill y mae partneriaid yn cynnig ymgymryd â nhw dros y blynyddoedd nesaf.

Bwriedir iddo fod yn brosbectws 'yn barod am fuddsoddiad' i gefnogi ceisiadau i Lywodraeth Cymru, y Loteri a sefydliadau eraill.

Dylid hefyd cydnabod bod hwn yn dempled cychwynnol a fydd yn destun adolygiad, diwygio a mireinio wrth i'r bartneriaeth ddatblygu ac aeddfedu.  Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu i fod yn 'sbardun' ar gyfer gweledigaeth fwy cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer Bangor; gweledigaeth a fydd, dros y ddegawd nesaf, yn trawsffurfio ffawd y Ddinas, ac yn ei sefydlu fel un o ardaloedd mwyaf deniadol Cymru i fyw, gweithio, buddsoddi, dysgu ac ymweld.

Pe cyflawnir y gwaith hwn yn iawn, gall Bangor ddatblygu i fod yn un o Ddinasoedd Gorau Cymru; yn cynnig yr amrediad llawn o rinweddau a chyfleusterau sy'n perthyn i Ddinas Dda; ond â chyfoeth o dreftadaeth Gymraeg a Cheltaidd yn treiddio drwyddi.